PAC(4)-06-11 Paper 2

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

17 Awst 2011
www.wao.gov.uk

# Darparu gwasanaethau TGCh a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin



# Darparu gwasanaethau TGCh a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Claire Flood-Page, Emma Giles, Jeremy Morgan a Patrick Spillan, o dan gyfarwyddyd Paul Dimblebee.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Ef sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol am ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn cynnal arolygiadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn benodol ar waith llywodraeth leol o'r fath, ac eithrio lle y bo'n ofynnol gwneud hynny drwy statud.


Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, anfonwch e-bost i: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

PAC(4)-06-11 Paper 2

# Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Awst 2011



80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


## Crynodeb 6

Casgliad cyffredinol 13

Argymhellion 13

## 1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei gwariant drwy'r Contract, ond nid yw'n gallu dangos bod yr holl wariant yn cynrychioli gwerth am arian 16

Mae cwmpas gwreiddiol contract Merlin wedi newid ac nid oes un gyllideb ar gyfer y cyfanswm gwariant o dan y Contract mwyach 16

Bydd newidiadau i drefniadaeth llywodraeth Cymru wedi cynyddu costau TGCh, ond er bod darpariaethau yn y Contract i reoli cynnydd mewn costau, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu dangos bod yr holl wariant o dan y Contract yn cynrychioli gwerth am arian 20

## 2 Yn dilyn rhai anawsterau a llithriant o ran moderneiddio'r seilwaith TGCh, mae'r Contract bellach yn darparu gwasanaethau TGCh craidd yn effeithiol 24

Yn dilyn oedi a methiannau sylweddol, cyflwynwyd rhaglen newydd i foderneiddio'r seilwaith TGCh 24

Gwelwyd manteision ariannol ac anariannol, ond nid oedd y manteision ariannol y disgwyliwyd i'r seilwaith TGCh newydd eu cyflwyno wedi'u diffinio'n ddigon clir i'w gwerthuso'n effeithiol 29

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o ran datblygu cofrestr asedau ddibynadwy ac mae wedi datblygu polisi ar gyfer gwaredu a/neu ailddefnyddio asedau yn ddiweddar 31

Mae gwasanaethau TGCh craidd a ddarperir o dan y Contract wedi gwella, fel y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyflenwr 31

Ar y cyfan mae Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad wedi derbyn gwasanaethau TGCh craidd dibynadwy o dan y Contract ac mae Comisiwn y Cynulliad yn paratoi opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol 35

Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad reoli risgiau allweddol o ran caffael gwasanaethau TGCh craidd ar ôl i'r Contract ddod i ben yn 2014 36

3 Mae'r Prosiectau TGCh a gyflawnwyd o dan y Contract wedi dwyn manteision ond nid oes sicrwydd ynghylch eu gwerth am arian 37

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei dull o reoli prosiectau TGCh ers i'r Contract ddechrau yn 2004 37

Cafwyd problemau o ran cyflawni rhai o'r prosiectau Sylfaen cychwynnol 39

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rheoli rhai o'r risgiau i werth am arian wrth gyflawni prosiectau TGCh yn gyson 42

Atodiadau 52

Atodiad 1 – Ein dulliau 52

Atodiad 2 – Llinell amser y digwyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad 55

Atodiad 3 – Crynodeb o'r 10 prosiect Sylfaen 57

Atodiad 4 – Y prif fanteision a nodwyd o'r pum prosiect Sylfaen a gwblhawyd 61

Atodiad 5 – Argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru 64

# Crynodeb

1 Mae contract Merlin (y Contract) yn gontract deng mlynedd ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) rhwng Llywodraeth Cymru a Siemens Information Services. Mae Siemens yn arwain consortiwm o gyflenwyr, sef y Gynghrair: Siemens sy'n arwain o ran gwasanaethau TGCh craidd, Capgemini sy'n arwain o ran rhaglenni dethol, PA Consulting sy'n arwain o ran ailgynllunio prosesau busnes a rheoli newid, a Siemens Enterprise Communications sy'n arwain o ran telathrebu.

2 Llofnodwyd y Contract ym mis Ionawr 2004 a dechreuodd ym mis Ebrill 2004. Mae opsiwn i ymestyn y Contract am bum mlynedd arall tan 2019.

3 Mae'r Contract yn darparu gwasanaethau TGCh i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyllideb wreiddiol y Contract dros y deng mlynedd oedd isafswm gwariant o £220 miliwn: £82 miliwn ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a £138 miliwn ar gyfer prosiectau newid busnes drwy TGCh (prosiectau TGCh), a ddarparwyd yn wreiddiol drwy Raglen Merlin.

4 Ym mis Ebrill 2006, ystyriodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru effeithiolrwydd y Contract o ran darparu gwasanaethau TGCh a newid busnes yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynharach. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar gyfer rheoli'r Contract yn y dyfodol a chaffael contractau TGCh dilynol. Nododd y Pwyllgor ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y contract newydd a dywedodd ei fod yn disgwyl ailystyried y mater yn y dyfodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried p'un a gyflawnodd gwasanaethau TGCh craidd a gwasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh a ddarparwyd o dan y Contract y buddiannau a fwriadwyd am gost resymol.


## Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei gwariant drwy'r Contract, ond nid yw'n gallu dangos bod yr holl wariant yn cynrychioli gwerth am arian

6 **Mae cwmpas gwreiddiol contract Merlin wedi newid ac nid oes un gyllideb ar gyfer y cyfanswm gwariant o dan y Contract mwyach.** Yn fuan ar ôl i'r Contract ddechrau, newidiodd y trefniadau llywodraethu. Cadwyd y gyllideb ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a ddarparwyd o dan y Contract, ond daeth y cyllidebau ar gyfer prosiectau TGCh a gyflawnwyd drwy Raglen Merlin yn gyfrifoldeb rhaglenni unigol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â Rhaglen Merlin, mae adrannau unigol Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r contract ar gyfer prosiectau TGCh sy'n benodol i adrannau o dan eu trefniadau llywodraethu eu hunain.

7 Dros saith mlynedd gyntaf y Contract, hyd at 31 Mawrth 2011, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £270 miliwn (Ffigur 1). Mae ychydig dros draean o'r arian wedi'i wario ar wasanaethau TGCh craidd ac mae mwy na hanner wedi'i wario ar wasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh.



**Ffigur 1 – Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant o dan y Contract wedi mynd ar brosiectau TGCh**




**Noder**

Anfonebwyd hyd at 31 Mawrth 2011

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru*

8 Mae gwasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh wedi cyfrif am y prif gynnydd mewn gwariant dros amser o dan y Contract, gan gynyddu o £10 miliwn yn 2004-05 i £32 miliwn yn 2010-11. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario cyfanswm o £156 miliwn ar brosiectau TGCh ers i'r Contract ddechrau.

9 Cynyddodd cost gwasanaethau TGCh craidd hefyd dros saith mlynedd gyntaf y Contract, o £9 miliwn yn 2004-05 i £14 miliwn yn 2010-11. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai'r prif reswm dros hyn oedd y cynnydd yn nifer y defnyddwyr, rhwydweithiau, lleoliadau a theleffoni yn dilyn y broses o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006. Ers 2006-07, mae gwariant blynyddol ar gostau gwasanaethau TGCh craidd wedi parhau ar lefel weddol gyson.

10 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwario £24 miliwn o dan y Contract ar eitemau eraill, na phennwyd cyllideb ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau nad oeddent yn rhan o'r model prisio gwasanaethau TGCh craidd, megis meddalwedd (yn cynnwys trwyddedau), caledwedd, cydrannau, rhwydweithiau data newydd a hyfforddiant.

11 Nid yw gwariant o dan y Contract yn cynrychioli cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar TGCh. Yn 2009-10, gwariodd Llywodraeth Cymru tua £81 miliwn ar TGCh, gyda £56 miliwn (69 y cant) o'r gwariant hwnnw drwy'r Contract. Gwariwyd y £25 miliwn sy'n weddill drwy 298 o gyflenwyr gwahanol.

12 **Bydd newidiadau i drefniadaeth llywodraeth Cymru wedi cynyddu costau TGCh ond, er bod darpariaethau yn y Contract i reoli cynnydd mewn costau, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu dangos bod yr holl wariant o dan y Contract yn cynrychioli gwerth am arian.** Bydd newidiadau i drefniadaeth llywodraeth wedi cynyddu costau gwasanaethau TGCh craidd a gwneud newidiadau busnes yn fwy cymhleth. Rhagwelwyd rhai o'r newidiadau hyn pan lofnodwyd y Contract ond nid oedd eu graddau na'u natur yn hysbys ac nis ystyriwyd yn y Contract. Roedd y newidiadau sefydliadol pwysicaf yn cynnwys: uno amryw o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â Llywodraeth Cymru; Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru; y broses gyfreithiol o wahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, a'r broses ddilynol o greu Comisiwn y Cynulliad. Arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaethau TGCh craidd a mwy o brosiectau TGCh na'r disgwyl.

13 Mae'r Contract yn cynnwys darpariaethau sydd â'r nod o leihau'r risg o gynnydd mewn costau nas cefnogir. Mae'r rhain yn cynnwys meincnodi costau gwasanaethau TGCh craidd yn erbyn contractau TCGh cymaradwy eraill, cyfrifyddu llyfr agored, gostyngiadau swmp-brynu, a'r opsiwn i dreialu unrhyw brosiectau TGCh gwerth mwy na £500,000. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru ddangos bod yr holl wariant o dan y Contract yn cynrychioli gwerth am arian. Y rheswm dros hyn yw oherwydd na wnaeth amcangyfrif effaith pob un o'r newidiadau yn nhrefniadaeth llywodraeth ar wariant o dan y Contract, ac yn dilyn newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer prosiectau TGCh, nid oedd cyllideb ar gyfer gwasanaethau wedi eu darparu o dan y Contract i gefnogi prosiectau TGCh.

## Yn dilyn rhai anawsterau a llithriant o ran moderneiddio'r seilwaith TGCh, mae'r Contract bellach yn darparu gwasanaethau TGCh craidd yn effeithiol

14 **Yn dilyn oedi a methiannau sylweddol, cyflwynwyd rhaglen newydd i foderneiddio'r seilwaith TGCh.** Rhan bwysig o'r Contract oedd uwchraddio a safoni seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru. Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r prosiect hwn, sef y prosiect Trawsnewid, ym mis Mehefin 2005. Fodd bynnag, oherwydd oedi, a achoswyd yn bennaf gan y ffaith bod y prosiect yn fwy cymhleth na'r disgwyl, gohiriwyd y prosiect ym mis Gorffennaf 2005. Cytunwyd ar gwmpas ac amserlen ddiwygiedig ar gyfer y prosiect, gyda'r dyddiad cyflawni disgwyliedig ym mis Medi 2006.

15 Gwaethygodd boddhad defnyddwyr â gwasanaethau TGCh yn ystod 2005 a 2006 ac, erbyn mis Ebrill 2006, dim ond 38 y cant o'r 6,500 o ddefnyddwyr a allai ddefnyddio gwasanaethau TGCh modern a safonol, er bod y grŵp hwn yn cynnwys pob Aelod Cynulliad a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (bryd hynny). Ym mis Mai 2006, penderfynodd Llywodraeth Cymru gymryd saib ac adolygu'r prosiect eto oherwydd yr anawsterau parhaus a'r aflonyddwch a achoswyd gan y broses o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nododd yr adolygiad fod Llywodraeth Cymru a Siemens wedi tanamcangyfrif yr anawsterau o ran cyflawni'r prosiect. Daeth i'r casgliad nad oedd gan y prosiect lefelau rheoli a rheolaeth rhaglenni sylfaenol, a bod Llywodraeth Cymru a Siemens wedi methu â chydymffurfio ag arfer gorau Swyddfa Masnach y Llywodraeth[1] ar

1 Ymgorfforwyd cyfrifoldebau Swyddfa Masnach y Llywodraeth i mewn i Grŵp Effeithlonrwydd a Diwygio Swyddfa'r Cabinet ym mis Mehefin 2010.



gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau Hefyd cwestiynodd yr adolygiad ddigonolrwydd y strwythurau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh.

16 Bu Llywodraeth Cymru yn pwyso a mesur ei hopsiynau, gan gynnwys terfynu'r Contract. Daeth i'r casgliad nad oedd newid cyflenwr yn debygol o sicrhau gwell gwasanaeth na chostau is, ac roedd yn cydnabod y byddai cyflawni ymarfer caffael newydd yn peri risgiau sylweddol. Yn hytrach, ceisiodd Llywodraeth Cymru ddatrys y problemau drwy negodi â'r cyflenwr a thrwy atgyfnerthu ei gallu fel cleient hyddysg i gymryd mwy o berchenogaeth o'r prosiect. Roedd hyn yn arwydd o newid pwyslais yn y Contract, o weithio mewn partneriaeth i gydberthynas prynwr-cyflenwr fwy traddodiadol, a gwelwyd bod Llywodraeth Cymru'n chwarae rôl fwy gweithredol o ran rheoli a diwallu ei hanghenion TGCh. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, derbyniodd Llywodraeth Cymru rai o'r risgiau yr oedd wedi ceisio'u trosglwyddo i'r cyflenwr pan lofnododd y Contract yn ôl.

17 Cyflawnwyd y broses o uwchraddio pob gweithfan i safon gyffredin fesul cam. Rheolwyd risgiau cyflenwi drwy dreialu'r broses uwchraddio mewn dwy o adrannau Llywodraeth Cymru. Bu hyn yn llwyddiannus, a dechreuodd y gwaith o uwchraddio adrannau eraill Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2008, gan gwblhau'r gwaith yn unol â'r amserlen ac o fewn y gyllideb ym mis Mawrth 2010.

18 Roedd strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-2011 yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gynlluniau i wneud gwelliannau pellach i wasanaethau TGCh craidd. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2011, nid oedd cytundeb ynghylch ariannu'r camau pellach hyn o'r prosiect Trawsnewid.

19 **Gwelwyd manteision ariannol ac anariannol, ond nid oedd y manteision ariannol y disgwyliwyd i'r seilwaith TGCh newydd eu cyflwyno wedi'u diffinio'n ddigon clir i'w gwerthuso'n effeithiol.** Er bod y prosiect Trawsnewid wedi costio dros £19 miliwn, nid oedd yr achosion busnes ar gyfer y prosiect diwygiedig yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwerthuso ei fanteision ariannol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai manteision sylweddol. Yn arbennig, yn ogystal â symud holl staff Llywodraeth Cymru a phob Aelod Cynulliad, pob aelod o staff Comisiwn y Cynulliad i system TG ganolog, mae'r prosiect Trawsnewid hefyd wedi lleihau ôl-troed carbon a chostau cynnal a chadw TGCh.

20 **Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o ran datblygu cofrestr asedau ddibynadwy ac yn ddiweddar datblygodd bolisi ar gyfer gwaredu a/neu ailddefnyddio asedau.** Mae gan Lywodraeth Cymru tua 17,500 o asedau TGCh gwerth tua £10 miliwn. Fodd bynnag, nid oedd cofrestr gyfredol o'r asedau hyn tan 2007 pan gadarnhawyd mai Siemens oedd yn gyfrifol am lunio a chynnal cofrestr o'r fath yn dilyn adolygiad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Ers hynny mae Siemens wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu cofrestr, er nad yw'r gofrestr yn cynnwys eitemau perifferol megis bysellfyrddau a llygod.

21 Hefyd, amlygodd adroddiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol nad oedd dull systematig o waredu asedau TGCh diangen. Bellach cafwyd datrysiad i'r sefyllfa hon: llofnodwyd contract ar gyfer gwaredu asedau TGCh ym mis Ionawr 2009, a bu polisi gwaredu ac ailddefnyddio asedau ar waith ers mis Medi 2010.

22 **Mae gwasanaethau TGCh a ddarperir o dan y Contract wedi gwella, fel y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyflenwr.** Mae'r safonau ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd wedi'u nodi yn y Contract ac yn cynnwys safonau sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau, ymateb i geisiadau am wasanaeth ac ymdrin â cheisiadau o'r fath a'r amser a gymerir gan y ddesg gymorth i ddatrys problemau. Er bod safonau gwasanaeth yn unol â safonau arferol y diwydiant pan osodwyd y Contract yn 2004, nid ydynt wedi'u diwygio ers hynny i gyd-fynd â gwelliannau i'r diwydiant cyfan.

23 Os na chyrhaeddir safonau gwasanaeth, caiff Siemens ei gosbi ar ffurf credydau gwasanaeth. Mae hyn yn ddangosydd dibynadwy o safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir gan Siemens ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd. Mae nifer y credydau gwasanaeth bron wedi haneru ers 2007-08, er bod nifer y defnyddwyr wedi cynyddu.

24 O'r cychwyn, gweledigaeth Llywodraeth Cymru oedd datblygu partneriaeth gyda'r cyflenwr i wella effeithlonrwydd, sicrhau gwell gwerth am arian a phrofi gwell llwyddiant o brosiectau a rhaglenni. Profwyd y gydberthynas rhwng y Gynghrair a Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r prosiect Trawsnewid. Dengys y defnydd o ddull Swyddfa Masnach y Llywodraeth o asesu'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gynghrair fod y gydberthynas wedi gwella, o 'gwael' yn ystod hanner cyntaf 2006, i 'da' ym mis Chwefror 2010.

25 **Ar y cyfan mae Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad wedi derbyn gwasanaethau TGCh craidd dibynadwy o dan y Contract ac mae Comisiwn y Cynulliad yn paratoi opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.** Darperir gwasanaethau TGCh craidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru. Er bod lefelau boddhad â gwasanaethau TGCh craidd wedi parhau'n dderbyniol, cafwyd rhai meysydd o bryder. Yn eu plith mae: y canfyddiad mai prin yw dylanwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros y Contract gan fod ei wariant yn cyfrif am lai na 5 y cant o gyfanswm y gwariant ar y Contract; pryderon Aelodau'r Cynulliad am broblemau cysylltu-o-bell; a mân fethiannau yn 2010, y mae Siemens a Chomisiwn y Cynulliad yn cytuno iddynt ddigwydd, fwy na thebyg, oherwydd hen gyfarpar sydd wedi'i ddisodli erbyn hyn.

26 Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad gael eu gwahanu'n gyfreithiol o Lywodraeth Cymru yn 2006, mae Comisiwn y Cynulliad wedi cynyddu ei allu TGCh mewnol. Ym mis Gorffennaf 2008 sefydlodd Comisiwn y Cynulliad adolygiad o'r holl dechnoleg a ddefnyddiwyd i gefnogi ei fusnes, yn cynnwys y gwasanaethau a ddarparwyd i Aelodau'r Cynulliad, staff a'r cyhoedd. Nododd yr adolygiad mai'r brif flaenoriaeth i Aelodau'r Cynulliad oedd gallu cysylltu â systemau TGCh o le bynnag y maent yn gweithio.

27 Ym mis Mehefin 2009, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i ddatblygu rhwydwaith unedig, lle y gallai Aelodau'r Cynulliad a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu ar yr un system, ar wahân i Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd y system hon yn 2010-11 gyda chost o £4.3 miliwn, sy'n gynnydd o'r amcangyfrif o £2.7 miliwn ym mis Mehefin 2009. Yn ogystal â gwella cadernid a diogelwch, disgwylir i'r system unedig hefyd ei gwneud yn haws i Gomisiwn y Cynulliad ystyried ei opsiynau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau TGCh yn annibynnol ar



ddiwedd y Contract yn 2014. Mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu cynnal dadansoddiad llawn o'i gostau o dan y Contract er mwyn ystyried a yw'n cynrychioli gwerth da am arian. At y diben hwn, mae'n ceisio eglurder a manylion gan Siemens a Llywodraeth Cymru o ran eu cyfran o gyfanswm y costau o dan y Contract.

28 **Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad reoli risgiau allweddol o ran caffael gwasanaethau TGCh craidd ar ôl i'r Contract ddod i ben yn 2014.** Mae'r Contract yn para tan 2014 gydag opsiwn i'w ymestyn am bum mlynedd. Cymerodd y broses o gaffael y Contract dros ddwy flynedd i'w chwblhau. Felly bydd angen i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ill dau ddechrau ar y prosesau caffael yn fuan os ydynt yn penderfynu rhoi'r gorau i'r Contract yn 2014. Bydd angen i'r asesiad o'u gofynion ystyried yr holl ofynion TGCh, nid dim ond y rheini a ddarperir o dan y Contract. Mae Comisiwn y Cynulliad yn ystyried pedwar opsiwn ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol, yn cynnwys yr opsiwn o lunio partneriaeth â Llywodraeth Cymru neu Gyrff Deddfwriaethol eraill y DU.

29 Yn ei adroddiad yn 2006, nododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o ddiffygion yn y broses o gaffael y Contract. Wrth gaffael olynydd Merlin, dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad adolygu ac ystyried yr argymhellion perthnasol o adroddiad y Pwyllgor (Atodiad 5).

## Mae'r Prosiectau TGCh a gyflawnwyd o dan y Contract wedi dwyn manteision ond nid oes sicrwydd ynghylch eu gwerth am arian

30 **Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei dull o reoli prosiectau TGCh ers dechrau'r Contract yn 2004.** Yn fuan ar ôl llofnodi'r Contract, nododd PA Consulting, sef aelod o'r Gynghrair, feysydd â blaenoriaeth ar gyfer rhaglen newid busnes Merlin drwy TGCh (Rhaglen Merlin). Hefyd yn 2004, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Contract ddarparu fframwaith cyflenwi y gellid ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau TGCh i gefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Merlin.

31 Yn 2005, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y rhan gyntaf o ddeg prosiect TGCh, sef y prosiectau Sylfaen, a oedd yn rhan o Brosiect Merlin. I ddechrau rheolwyd Rhaglen Merlin ac agweddau eraill ar ddarpariaeth Merlin gan Fwrdd Rheoli Merlin, ond yn sgîl ehangu agenda newid Llywodraeth Cymru yn 2006, ad-drefnwyd strwythurau llywodraethu ar ddechrau 2007.

32 Yn 2006 ehangodd Llywodraeth Cymru ei rôl a'i swyddogaethau, yn dilyn y broses o uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Bu hyn, ynghyd â chyfres o ffactorau eraill, megis gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Lywodraeth Cymru, yn sbardun i Lywodraeth Cymru adolygu ei dull o newid busnes ac adolygu trefniadau cyflenwi. Cafodd prosiectau newid, yn cynnwys llawer o brosiectau nad oeddent yn brosiectau TGCh, eu hymgorffori mewn rhaglenni fel rhan o'r Portffolio Datblygu Busnes (neu'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth yn ddiweddarach). Ni chaiff pob un o brosiectau'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth eu cyflawni drwy'r Contract.

33 Cafodd wyth o'r deg prosiect Sylfaen eu cynnwys yn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth ar ryw ffurf neu'i gilydd, gyda'r ddau brosiect arall wedi'u cwblhau eisoes. Ymgorfforwyd y prosiectau Sylfaen yn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth ochr yn ochr â phrosiectau TGCh newydd eu nodi a phrosiectau nad oeddent yn brosiectau TGCh fel rhan o fuddsoddiad o £40 miliwn dros dair blynedd.

34 O fewn fframwaith llywodraethu'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth, mae'n ofynnol i reolwyr prosiect gyflwyno adroddiadau misol ar gostau prosiect, lefelau staffio, manteision a chynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol i fyrddau prosiect (os ydynt yn bodoli) a byrddau rhaglenni. Fodd bynnag, llesteiriwyd gallu Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd ei phrosiectau TGCh gan drefniadau annigonol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol, ac nid yw dogfennau cau prosiectau bob amser yn nodi'n glir sut mae prosiectau wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr amserlenni a'r costau gwreiddiol.

35 **Cafwyd problemau o ran cyflawni rhai o'r prosiectau Sylfaen cychwynnol.** Cwblhawyd pump o'r deg prosiect Sylfaen gwreiddiol, gyda thri ohonynt yn costio mwy a/neu'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r disgwyl yn eu hachosion busnes gwreiddiol. Yn achos System Rheoli a Thalu grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gohiriwyd y prosiect am dros flwyddyn a chostiodd ddwywaith yr amcangyfrif gwreiddiol.

36 O'r pum prosiect Sylfaen gwreiddiol nas cwblhawyd, rhoddwyd y gorau i ddau yn ystod y gwaith datblygu ac ymgorfforwyd eu hamcanion mewn prosiectau Portffolio Hwyluso Llywodraeth. Mae'r tri phrosiect sy'n weddill yn cael eu gweithredu o hyd o fewn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth, ond gyda chwmpas, cyllidebau ac amserlenni diwygiedig.

37 **Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rheoli rhai o'r risgiau i werth am arian wrth gyflawni prosiectau TGCh yn gyson.** Gall prosiectau TGCh fod yn gymhleth a chynnwys risgiau yn eu hanfod a, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector cyhoeddus yn y DU wedi bod yn gyfrifol am nifer o achosion proffil uchel a drud o brosiectau TGCh yn methu. Nodwyd sawl risg gennym o brosiectau TGCh a gyflawnwyd drwy'r Contract sy'n rhwystr i sicrhau gwerth am arian a gallu Llywodraeth Cymru i asesu perfformiad y Gynghrair o ran cyflawni prosiectau TGCh.

38 Er bod rhai prosiectau unigol wedi cyflawni neu yn cyflawni rhai canlyniadau cadarnhaol a bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer gwerthuso manteision prosiectau, nid yw'r manteision ariannol wedi'u nodi, eu coladu na'u monitro'n gyson. Nodwyd y canlynol gennym:

- a nid oedd y manteision disgwyliedig wedi'u nodi ar gyfer rhai prosiectau Sylfaen;
- b nid yw Llywodraeth Cymru wedi monitro manteision pob un o'r prosiectau Sylfaen mewn modd systematig;
- c mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer gwerthuso'r manteision ariannol a gyflawnwyd gan brosiectau TGCh, ond mae cryn dipyn o'r data perthnasol yn anghyson ac yn anghyflawn;
- d nid yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi gwybodaeth am gostau a manteision yn ei galluogi i gynnal asesiad cyffredinol o werth am arian gwasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh a gaffaelwyd o dan y Contract.



39 O dan y trefniadau llywodraethu presennol, nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro gwariant o dan y Contract ar brosiectau TGCh mwyach nac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny. Mae hyn yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i asesu perfformiad y Gynghrair gyfan o ran cefnogi prosiectau TGCh a gwerth am arian cyffredinol y Contract.

40 Un o nodau gwreiddiol y Contract oedd i drosglwyddo sgiliau o’r Gynghrair i staff Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin ei gallu i reoli rhaglenni a phrosiectau, ond ni all fesur effaith hyn o ran lleihau gwariant ar gymorth allanol ar gyfer prosiectau TGCh.

41 Mae nifer sylweddol o brosiectau wedi'u caffael ar sail 'amser a deunyddiau', lle y gwneir taliadau ar gyfer nifer yr oriau a weithiwyd yn hytrach nag am ddarparu cynnyrch terfynol penodol. Digwyddodd dau draean o’r gwariant ar brosiectau TGCh a ddeilliodd o’r Contract ar sail 'amser a deunyddiau'. Oni chânt eu rheoli'n ofalus, nid yw'r contractau hyn yn cynnig fawr ddim cymhelliant i'r contractiwr fod yn effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r risgiau o gaffael prosiectau ar sail amser a deunyddiau drwy sicrhau bod cyflawni canlyniadau a ddymunir yn un o amodau contractau o'r fath.  Mae hefyd wedi cynnwys cymalau gwarant ar gyfer prosiectau amser a deunyddiau risg uchel.

42 Nid yw'r Contract yn cyfyngu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio gwasanaethau'r Gynghrair yn unig. Mae hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i dreialu unrhyw brosiectau TGCh gwerth dros £500,000. Nodwyd gennym fod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon i gaffael rhai prosiectau TGCh mawr y tu allan i'r Contract.

## Casgliad cyffredinol

43 Yn dilyn rhai anawsterau yn ystod y cyfnod 2005 i 2007, pan nad oedd gan Lywodraeth Cymru'r gallu i weithredu fel cleient deallus, mae'r Contract bellach yn darparu gwasanaethau TGCh craidd yn effeithiol. Datblygwyd a gweithredwyd prosiectau TGCh a ategwyd gan wasanaethau a ddarparwyd o dan y Contract i lwyddiant amrywiol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi monitro costau’r gwasanaethau hyn yn effeithiol, ac nid yw wedi rheoli rhai o'r risgiau i werth am arian wrth gyflawni prosiectau TGCh yn gyson. Mae'r atebolrwydd am wasanaethau prosiectau TGCh a ddarparwyd o dan y Contract wedi'i wasgaru ar draws Llywodraeth Cymru ac nid oes sicrwydd o ran gwerth am arian cyffredinol y Contract.

## Argymhellion

### Costau Merlin

1 Er bod cost gwasanaethau TGCh craidd yn ddirnadwy ac yn cael eu rheoli a'u monitro'n ofalus, mae'r atebolrwydd am brosiectau TGCh yn wasgaredig ac nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro cyfanswm y gwariant ar brosiectau TGCh mwyach. Dim ond rheolwyr y Contract sy'n monitro cyfanswm y gwariant drwy'r Contract ac ni chyflwynir manylion y gwariant hwnnw i fwrdd llywodraethu mwyach. Hefyd, nid yw gwybodaeth reolwyr am gostau prosiectau TGCh unigol yn gadarn. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i lunio barn ar berfformiad y Gynghrair ar draws pob prosiect TGCh ac asesu gwerth am arian y Contract cyfan. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gofnodi a monitro'r holl wariant o dan y Contract er mwyn gallu cynnal dadansoddiadau ystyrlon o berfformiad y Gynghrair. Dylid cyflwyno adroddiadau**

**monitro i Fwrdd Strategol, Cyflawni a Pherfformiad Llywodraeth Cymru a dylid cynnwys dadansoddiad manwl o'r holl elfennau cost. Bydd dadansoddiad o'r fath yn:**

a **ei gwneud yn bosibl llunio barn ar y gwerth am arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael o'r Gynghrair ar gyfer prosiectau TGCh;**

b **sicrhau dealltwriaeth o ba rai o adnoddau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu gwario ar brosiectau TGCh drwy'r Contract, yr hyn sy'n llywio gwariant a phwy sy'n atebol;**

c **darparu gwybodaeth sylfaenol ddefnyddiol i lywio'r fanyleb ar gyfer caffael contract newydd ar ôl i'r Contract ddod i ben.**

## Gwerthuso manteision prosiectau TGCh

2 Un o brif nodau'r contract oedd defnyddio TGCh at ddiben newid busnes drwy gyfres o brosiectau. Gwariwyd tua £156 miliwn ar wasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh a ddarparwyd drwy'r Contract. Er bod rhai manteision wedi dod yn sgîl prosiectau, nid oes sicrwydd o ran eu gwerth am arian am nad oes dull systematig o wireddu manteision ar gyfer prosiectau TGCh wedi'i ymgorffori. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:**

a **ddatblygu system ar gyfer cynllunio, mesur a monitro manteision ariannol ac anariannol prosiectau TGCh, yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth;**


b **ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr cyfrifol gyflwyno adroddiadau blynyddol ar y manteision ariannol ac anariannol a gyflawnir gan bob prosiect TGCh unigol.**

## Defnyddio cymorth allanol a gallu Llywodraeth Cymru i reoli a chyflawni prosiectau TGCh

3 Un o nodau gwreiddiol y Contract oedd lleihau, dros amser, y ddibyniaeth ar gymorth allanol a chynyddu gallu swyddogion Llywodraeth Cymru i reoli a chyflawni prosiectau TGCh. Mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu rhai o'i threfniadau ar gyfer cefnogi'r gwaith o reoli a chyflawni prosiectau TGCh, ond nid yw gwybodaeth rheolwyr yn ddigonol i asesu p'un a yw hyn wedi arwain at lai o ddefnydd o gymorth allanol ar gyfer prosiectau TGCh o flwyddyn i flwyddyn. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru fesur a monitro'r defnydd a wneir dros amser o gymorth allanol ar gyfer prosiectau TGCh. Yn ogystal â mesur amser a chostau, dylai hyn hefyd gynnwys mesurau o fanteision cymorth allanol.**

## Cyflawni prosiectau TGCh mawr a chymhleth

4 Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli nifer o brosiectau TGCh mawr, cymhleth a risg uchel. Dylai'r gwaith o gaffael, rheoli a chyflawni'r prosiectau hyn fod yn unol ag arfer gorau a dderbynnir, megis y canllawiau a roddir gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Drwy gydymffurfio ag arfer gorau bydd hefyd yn galluogi dysgu a lledaenu gwersi drwy Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach. **Canfuwyd gennym nas defnyddiwyd adolygiadau Gateway ar gyfer prosiectau TGCh ac felly argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar gyfer pob prosiect TGCh mawr, defnyddio aseswyr Gateway annibynnol, allanol ar gyfer prosiectau cymhleth a risg uchel.**



## Caffael olynydd Merlin

5 Daw'r Contract i ben yn 2014, ond mae opsiwn i'w ymestyn am bum mlynedd arall. O ystyried bod y broses o gaffael contract Merlin wedi cymryd dros ddwy flynedd, dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad fod yn cymryd camau nawr er mwyn gallu penderfynu'n fuan p'un ai i ymestyn y contract presennol neu ddechrau'r broses o gaffael ei olynydd. Os penderfynir peidio ag ymestyn y Contract, **argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ill dau:**

- a **gwneud penderfyniad cynnar o ran p'un ai i gaffael contract newydd ar gyfer gwasanaethau TGCh ar y cyd, neu gynnal eu prosesau caffael eu hunain ar wahân;**
- b **datblygu strategaeth ymadael ar gyfer y contract presennol, a ddylai gynnwys nodi'r holl waith y mae angen ei gwblhau erbyn dyddiad gorffen y contract ac ystyried hawliau eiddo deallusol a materion cyflogaeth staff;**
- c **adolygu ac ystyried, fel y bo'n briodol, yr argymhellion sy'n ymwneud â chaffael o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gontract Merlin yn 2006;**
- d **adolygu llwyddiant neu fethiant y model partneriaeth a ddefnyddiwyd o dan y Contract, a phenderfynu p'un ai hwn sydd fwyaf priodol ar gyfer y contract newydd;**
- e **cyflawni adolygiadau Gateway 5 (adolygu gweithrediadau a gwireddu manteision) Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn fuan ar ôl i'r contract ddod i ben er mwyn nodi'r holl fanteision ariannol ac anariannol sy'n deillio o'r Contract;**
- f **sicrhau bod eu strategaethau caffael ar gyfer olynydd Merlin yn cynnwys adolygiadau Gateway 0 (asesiad strategol) Swyddfa Masnach y Llywodraeth;**
- g **nodi gofynion data ar gyfer prosesau caffael, yn cynnwys trefniadau casglu data, gofynion o ran dadansoddi a monitro, dangosyddion perfformiad posibl, a gwobrwyon neu gosbau am berfformiad da neu berfformiad drwg;**
- h **rhoi trefniadau llywodraethu ar waith sy'n sicrhau atebolrwydd clir ar gyfer rheoli'r holl wasanaethau a ddarperir o dan y contract newydd.**

# Rhan 1 – Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei gwariant drwy'r Contract, ond nid yw'n gallu dangos bod yr holl wariant yn cynrychioli gwerth am arian

## Mae cwmpas gwreiddiol contract Merlin wedi newid ac nid oes un gyllideb ar gyfer y cyfanswm gwariant o dan y Contract mwyach

### Gwnaeth Llywodraeth Cymru gaffael contract Merlin ar sail isafswm gwariant o £220 miliwn dros gyfnod 10 mlynedd y Contract

**1.1** Mae contract Merlin (y Contract) yn gytundeb 10 mlynedd (gydag opsiwn i'w ymestyn am bum mlynedd arall) rhwng Llywodraeth Cymru a chonsortiwm (y Gynghrair) a arweinir gan Siemens Information Services (Siemens). Mae'r Contract yn cwmpasu darparu gwasanaethau TGCh craidd a chefnogi prosiectau newid busnes drwy TGCh (prosiectau TGCh) ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel yr oedd bryd hynny)[2] (Blwch 1).

**1.2** Ar sail lefelau presennol o wariant ar TGCh a gwasanaethau cysylltiedig o £22 miliwn y flwyddyn, yn 2003 cyllidebodd Llywodraeth Cymru lleiafswm gwariant o £220 miliwn dros gyfnod deng mlynedd y Contract o 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2014. Ystyriwyd bod y swm hwn yn fforddiadwy ar sail gwariant TGCh presennol: roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid lleihau costau gwasanaethau TGCh craidd a defnyddio'r gweddill ar gyfer prosiectau TGCh. Cyllidebodd £82 miliwn (37 y cant) ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a £138 miliwn (63 y cant) i gyflawn

**Blwch 1 – Contract Merlin**

Llofnodwyd contract Merlin ym mis Ionawr 2004 a dechreuwyd darparu gwasanaethau ym mis Ebrill 2004.

Cymerodd Merlin le contract OSIRIS, a oedd yn gontract TG mwy traddodiadol a ddarparwyd gan Siemens hefyd. Sefydlwyd y cytundeb newydd ar ffurf partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a fyddai'n gyfrwng i ddefnyddio TGCh i wella'r broses o newid busnes. Ystyriwyd mai manteision y bartneriaeth oedd gwella effeithlonrwydd, sicrhau gwell gwerth am arian o weithgareddau masnachol a sicrhau gwell llwyddiant o raglenni a phrosiectau.

Mae Siemens yn arwain consortiwm o gyflenwyr: Siemens sy'n arwain o ran gwasanaethau TGCh; Capgemini sy'n arwain o ran rhaglenni meddalwedd dethol; PA Consulting sy'n arwain o ran ailgynllunio prosesau busnes a rheoli newid; a Siemens Enterprise Communications sy'n arwain o ran telathrebu.

Mae'r Contract yn cwmpasu Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae opsiwn i ymestyn y Contract am bum mlynedd arall tan 2019.

Bu gwasanaethau TGCh yn Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn destun dau adroddiad cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol:

- Contract Merlin - galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh (2006);
- OSIRIS: y contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (2002).

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

2 Roedd contract Merlin yn cwmpasu'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Ers gwahanu Llywodraeth Cymru o'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn yn Cynulliad yn derbyn gwasanaethau TGCh o dan gontract Merlin drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru.



i prosiectau TGCh o dan yr hyn a alwyd yn Rhaglen Newid Merlin bryd hynny. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai'r gyllideb newid yn unol â chwyddiant, roedd yn rhagweld y byddai unrhyw wariant ychwanegol yn cael ei gyfiawnhau gan achosion busnes ar wahân[3].

### Yn sgîl newidiadau i drefniadau llywodraethu prosiectau TGCh, ymgorfforwyd cyllideb Merlin ar gyfer prosiectau TGCh yng nghyllidebau eraill Llywodraeth Cymru

**1.3** Yn ystod yr hydref 2004, yn fuan ar ôl i'r Contract ddechrau, sylweddolodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod gwrthdaro buddiannau o ran trefniadau llywodraethu prosiectau TGCh. Roeddent o'r farn ei bod yn amhriodol i Fwrdd Partneriaeth Merlin[4] wneud penderfyniadau buddsoddi ar gyfer Rhaglen Newid Merlin, gan fod y Bwrdd yn cynnwys swyddogion gweithredol o'r Gynghrair y gallai eu cwmnïau elwa ar y penderfyniadau. Wedi hynny, gwnaed newidiadau i drefniadau llywodraethu prosiectau TGCh, yn cynnwys sefydlu Bwrdd Buddsoddi ym mis Rhagfyr 2004. Nid oedd y Bwrdd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y Gynghrair ac roedd yn gwneud penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas â holl brosiectau newid Llywodraeth Cymru, p'un a oeddent yn cynnwys elfen TGCh neu beidio.

**1.4** Hefyd, newidiodd ac ehangodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen newid gorfforaethol, o nifer fach o brosiectau TGCh a gyflawnwyd o dan Raglen Newid Merlin i fwy o brosiectau, yn cynnwys prosiectau nad oeddent yn brosiectau TGCh, nad oeddent oll yn cael eu cyflawni o dan y Contract. Yn sgîl newidiadau i drefniadau llywodraethu prosiectau TGCh, dechreuodd gwariant o dan y Contract ar gyfer prosiectau TGCh gael ei gynnwys fel rhan o gyllidebau rhaglenni unigol Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, ers 2006-07, er bod un gyllideb ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd, ni fu cyllideb Merlin gyffredinol sy'n cwmpasu pob gwasanaeth a ddarperir o dan y Contract.

### Hyd at fis Mawrth 2011 gwariodd Llywodraeth Cymru £270 miliwn o dan y Contract

**1.5** Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwario £270 miliwn o dan y Contract rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2011. Roedd ychydig dros draean o'r gwariant (34 y cant) ar wasanaethau TGCh craidd, i gefnogi gwaith staff Llywodraeth Cymru, staff Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, ac roedd mwy na hanner (58 y cant) o'r gwariant ar gefnogi prosiectau TGCh (Ffigur 2). Y prif feysydd gwariant ar brosiectau TGCh oedd:

- **a** system grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (£18.1 miliwn, ym maes datblygu a gweithredu);
- **b** y 'prosiect Trawsnewid' i ailadeiladu system TGCh Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad (£19.3 miliwn);
- **c** TGCh ar gyfer adeilad y Senedd (£10.1 miliwn);
- **d** System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau Llywodraeth Cymru (£9.9 miliwn).

**1.6** Nid yw gwariant o dan y Contract yn cynrychioli holl wariant Llywodraeth Cymru ar TGCh dros y chwe blynedd a hanner diwethaf. Noda Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-2011 nad yw'n bosibl cael darlun cyflawn o weithgarwch TGCh Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd gan fod amryfal adrannau yn gyfrifol amdano a

3 *Achos Busnes Penderfyniad Caffael Llywodraeth Cymru,* Rhagfyr 2003.

4 Roedd y grŵp yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion gweithredol y Gynghrair, dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, a oedd yn gyfrifol am reoli'r gydberthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gynghrair.

**Ffigur 2 – Gwariwyd y rhan fwyaf o'r arian o dan y Contract ar brosiectau TGCh**

| Maes gwariant | Cyfanswm y gwariant[1] |
|---|---|
| **Prosiectau TGCh**<br>Cefnogi ystod o brosiectau newid busnes drwy TGCh sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau TGCh craidd, datblygu'r seilwaith TGCh neu brosiectau newid busnes drwy dechnoleg. | £155.9 miliwn (58 y cant) |
| **Gwasanaethau TGCh craidd**<br>Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r systemau a'r rhaglenni TGCh a ddefnyddir o ddydd i ddydd gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad. Pennir costau drwy ddefnyddio'r model prisio a nodir yn y Contract.<br>[Mae gwariant ar wasanaethau TGCh craidd yn cynnwys rhai costau ar gyfer y prosiect Trawsnewid i uwchraddio'r seilwaith TGCh (£3 miliwn yn 2005-06 ac £1 filiwn yn 2006-07). Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar y prosiect Trawsnewid wedi'i gynnwys fel rhan o gostau prosiectau TGCh.] | £90.3 miliwn (33 y cant) |
| **Arall**<br>Categori amrywiol yn cynnwys eitemau TGCh nad ydynt yn rhai craidd (defnyddiau traul yn bennaf) nad ydynt yn ffurfio rhan o'r model prisio gwasanaethau TGCh craidd. | £23.8 miliwn (9 y cant) |
| **Cyfanswm** | **£270 miliwn** |

**Noder**

1 Anfonebwyd hyd at 31 Mawrth 2011

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


gellir ei roi ar waith o ffynonellau amrywiol. Er mwyn cael darlun mwy eglur o'r holl weithgarwch a gwariant TGCh, penododd Llywodraeth Cymru Bennaeth Proffesiwn ar gyfer TGCh yn 2007.

**1.7** Yn 2009-10, sef y flwyddyn gyntaf y cyfrifwyd cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar TGCh, gwariodd Llywodraeth Cymru tua £81.3 miliwn ar TGCh, gyda 69 y cant (£55.7 miliwn) wedi'i wario drwy'r Contract. Gwariwyd y £25.6 miliwn sy'n weddill drwy 298 o gyflenwyr gwahanol[5] ar TGCh, gyda 69 y cant (£55.7 miliwn) wedi'i wario drwy'r Contract. Gwariwyd y £25.6 miliwn sy'n weddill drwy 298 o gyflenwyr gwahanol[6]. Nododd Llywodraeth Cymru fod yr ymarfer casglu data a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigurau hyn yn gynhwysfawr ond nid yn drwyadl, ac mae'n debygol na nodwyd gwariant ychwanegol ar TGCh.


**1.8** Mae gwariant blynyddol o dan y Contract wedi cynyddu dros ei chwe blynedd gyntaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn gwariant ar wasanaethau prosiect TGCh, a gynyddodd o £10.4 miliwn yn ystod blwyddyn gyntaf y Contract yn 2004-05 i £34.7 miliwn yn 2009-10 (Ffigur 3). Cyfanswm y gwariant ar wasanaethau prosiect TGCh hyd at fis Mawrth 2011 oedd £155.9 miliwn. Gwariwyd £7.1 miliwn arall (6 y cant) ar dreuliau.

5 Mae hyn yn cynnwys £2.5 miliwn sy'n TAW y gellir ei hadennill o wasanaethau TGCh craidd.

6 Gwariant TGCh Llywodraeth Cymru. Papur a luniwyd gan yr Uned Fasnachol a Chontractau ar gyfer y Cyfarfod Bwrdd Cyflawni Strategol a Pherfformiad, 22 Hydref 2010.



**Ffigur 3 – Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh wedi cynyddu dros gyfnod y Contract**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**1.9** Mae gwariant blynyddol ar wasanaethau TGCh craidd wedi cynyddu hefyd, o £8.7 miliwn yn 2004-05 i £13.8 miliwn yn 2010-11. Yn 2006-07 cynyddodd costau gwasanaethau TGCh craidd 76 y cant i £15.6 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai'r rheswm drosto oedd y cynnydd yn nifer y defnyddwyr, rhwydweithiau, lleoliadau a theleffoni yn sgîl uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru o fewn Llywodraeth Cymru, a chostau cysylltiedig. Mae costau gwasanaethau TGCh craidd wedi parhau'n weddol gyson ers 2006-07 er gwaethaf lleihad dilynol yn nifer y defnyddwyr, o 235 (3 y cant), erbyn 2009-10.

**1.10** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y lefelau uwch na'r disgwyl o wariant drwy'r Contract ar brosiectau TGCh yn arwydd o lwyddiant a'r hyder cynyddol yn y defnydd o'r Contract. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfran cyfanswm gwariant TGCh Llywodraeth Cymru o dan y Contract, dros amser, i ategu'r honiad hwn.

# Bydd newidiadau i drefniadaeth llywodraeth Cymru wedi cynyddu costau TGCh, ond er bod darpariaethau yn y Contract i reoli cynnydd mewn costau, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu dangos bod yr holl wariant o dan y Contract yn cynrychioli gwerth am arian

## Bydd newidiadau i drefniadau'r llywodraeth yng Nghymru wedi achosi cynnydd mewn costau gwasanaethau TGCh craidd a gwneud newidiadau busnes yn fwy cymhleth

**1.11** Yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2006 nodwyd gennym fod Llywodraeth Cymru ar fin gwneud tri newid strwythurol sylweddol (Blwch 2) a oedd yn debygol o gynyddu gwariant ar TGCh:

- **a** uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â'r Llywodraeth ym mis Ebrill 2006[7];
- **b** gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru a chreu Comisiwn y Cynulliad wedi hynny ym mis Mai 2007;
- **c** Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru, a fyddai'n creu ystad fwy gwasgaredig.

### Blwch 2 – Tri newid mawr sy'n debygol o effeithio ar wariant TGCh o dan y Contract

**Uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â Llywodraeth Cymru**

Ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2004 cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd y byddai pedwar Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu huno â Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2006, sef: Awdurdod Datblygu Cymru; Bwrdd Croeso Cymru; Dysgu ac Addysgu Cymru; ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Mae Llywodraeth Cymru dod yn gyfrifol am rai o swyddogaethau sefydliadau eraill ers hynny. Er enghraifft, ym mis Hydref 2006 daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am redeg y cynllun amaeth-amgylchedd Tir Gofal yn lle Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol**

Darparodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru - sef y ddeddfwrfa sy'n cynnwys 60 o Aelodau'r Cynulliad a etholir yn ddemocrataidd - o Lywodraeth Cymru. Digwyddodd hyn ym mis Mai 2007.


**Strategaeth Lleoliadau**

Nod Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru oedd adleoli 400 o swyddi o Gaerdydd i swyddfeydd ledled Cymru erbyn 2007, ac wedi hynny gynyddu nifer y swyddi a leolwyd y tu allan i Gaerdydd o leiaf 900 o gymharu â 2002, mewn o leiaf dair swyddfa aml-swyddogaeth newydd a swyddfeydd llai o faint eraill ledled Cymru.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.12** Effaith gyfunol y newidiadau hyn oedd cynyddu'r gost o ddarparu gwasanaethau TGCh craidd drwy gynyddu nifer y defnyddwyr, cynyddu nifer y lleoliadau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau, a gwneud TGCh yn fwy cymhleth gyda mwy o raglenni meddalwedd a systemau etifeddol o'r sefydliadau a unwyd (Ffigur 4). Roedd hyn hefyd yn golygu bod y rhaglen newid busnes yn fwy cymhleth wrth i Lywodraeth Cymru gael swyddogaethau newydd ac etifeddu prosesau busnes.

7 Ar 1 Ebrill 2006, unwyd Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru â Llywodraeth Cymru.



## Ffigur 4 – Bydd effaith gyfunol amryw o newidiadau wedi cynyddu cost gwasanaethau TGCh

| Newid | Effaith |
|---|---|
| Cynnydd yn nifer y staff, gan gynnwys y cynnydd a ddeilliodd o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â Llywodraeth Cymru | Un o seiliau costau gwasanaethau TGCh craidd o dan y Contract yw tâl fesul defnyddiwr. Felly, mae costau yn cynyddu wrth i nifer y defnyddwyr gynyddu, yn amodol ar rai gostyngiadau swmp-brynu. Yn dilyn uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â Llywodraeth Cymru gwelwyd cynnydd o bron 40 y cant yn nifer y defnyddwyr TGCh o gymharu â dechrau 2006.<br>Achosodd cynnydd yn nifer y staff hefyd gynnydd yng nghost y rhaglen ailddatblygu TGCh, sef y prosiect Trawsnewid, a fydd wedi effeithio ar gostau rhai prosiectau TGCh. |
| Cynnydd yn nifer swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru | Gwnaeth y broses o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru gynyddu yn nifer y swyddfeydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn sgîl hynny gostau TGCh craidd, yn rhannol oherwydd bod angen cysylltiadau rhwydwaith a gweinyddion ychwanegol a hefyd gan fod costau cymorth TGCh yn cynyddu dros ystad fwy gwasgaredig.<br>Arweiniodd y broses o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru at fwy na dyblu nifer swyddfeydd Llywodraeth Cymru, er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhesymoli ei ystad ers hynny. |
| Etifeddu contractau TGCh y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a unwyd | Lle y bo'n bosibl, terfynodd Llywodraeth Cymru contractau TGCh a etifeddwyd oddi wrth y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a unwyd, gan eu disodli â gwasanaethau a gaffaelwyd o dan y Contract, er enghraifft darparu meddalwedd wrth-firws. |
| Daeth y system TGCh yn fwy cymhleth | Roedd gan bob sefydliad a unwyd lwyfannau, rhaglenni a phrosesau busnes TGCh gwahanol. Roedd angen cyflawni gwaith sylweddol i gychwyn er mwyn i'r rhain allu parhau i weithredu ac i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng staff cyn symud i lwyfan TGCh newydd. |
| Anghenion defnyddwyr mwyfwy cymhleth | Yn sgîl y broses o uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a newidiadau eraill gwelwyd cynnydd ym maint a chymhlethdod gwaith Llywodraeth Cymru. Effeithiodd hyn ar brosiectau TGCh Llywodraeth Cymru a oedd yn cwmpasu anghenion busnes ehangach a mwy o ddefnyddwyr nag a ragwelwyd yn wreiddiol. |
| Gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol | Yn 2005 comisiynwyd Siemens gan Lywodraeth Cymru i roi amcanbris ar gyfer prosiect i greu system TGCh ar wahân ar gyfer Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad. Dewisodd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (sef rhagflaenydd Comisiwn y Cynulliad) i beidio bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2006, yn bennaf gan fod risg sylweddol na fyddai'n bosibl cwblhau'r gwaith yn y cyfnod byr cyn y gwahaniad. Wedi hynny cyflawnwyd y gwaith drwy brosiect Rhwydwaith Unedig Comisiwn y Cynulliad, a cwblhawyd y gwaith ym mis Hydref 2010 am gost o £4.3 miliwn. |

*Ffynhonnell: Crynodeb o ddadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

## Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio darpariaethau yn y Contract i leihau'r risg o gynnydd nas cefnogwyd mewn costau gwasanaethau TGCh craidd

**1.13** Mae'r Contract yn cynnwys cymalau i helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd. Yn eu plith mae'r canlynol:

- **a** gostyngiadau swmp-brynu, o fewn terfynau, fel bod costau fesul defnyddiwr yn lleihau wrth i nifer y defnyddwyr gynyddu;
- **b** cyfrifyddu llyfr agored, er mwyn sicrhau tryloywder o ran costau ac elw'r Gynghrair, ac i alluogi Llywodraeth Cymru i amcangyfrif costau gwasanaethau TGCh craidd a chostau prosiectau gan ddefnyddio'r model prisio a nodwyd yn y Contract;
- **c** cap ar elw'r Gynghrair sef 15 y cant o gostau, gydag unrhyw elw dros ben yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru;
- **d** meincnodi costau gwasanaethau TGCh craidd yn erbyn costau sefydliadau cymaradwy;
- **e** treialu prosiectau sy'n costio mwy na £500,000, lle nad yw'r cysylltiad rhwng y prosiect dan sylw a gwaith y Gynghrair mor agos na allai sefydliad arall gwblhau'r gwaith;
- **f** cyswlltu cynnydd mewn cyfraddau dyddiol am wasanaethau ymgynghori a godir gan y Gynghrair â'r cynnydd cyfartalog yn y sector cyfan.

**1.14** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymarfer meincnodi i gymharu costau ei gwasanaeth TGCh o dan y Contract â chontractau TGCh mawr eraill. Cyn 2008, dangosodd y gwaith meincnodi fod cost gwasanaethau TGCh craidd yn unol â'r meincnod, neu'n is na hynny. Fodd bynnag, nododd ymarfer meincnodi 2008 fod costau gwasanaethau TGCh o dan y Contract yn sylweddol uwch (£1 filiwn) na chostau cymaradwy contractau eraill.

**1.15** Cytunodd Llywodraeth Cymru a Siemens i adolygu'r model prisio ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd (Blwch 3) ac ym mis Ebrill 2009 dechreuwyd negodi prisiau a safonau gwasanaethau TGCh. Er gwaethaf canlyniadau ymarfer meincnodi 2008, roedd Siemens o'r farn nad oedd y model prisio yn adlewyrchiad cywir o'r pris y dylent fod yn ei godi am wasanaethau TGCh craidd, nad oedd yn broffidiol iddynt.

**Blwch 3 – Model Prisio Merlin**

Defnyddir y model prisio i gyfrifo faint y dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ei dalu am wasanaethau TGCh craidd a ddarperir gan Siemens o dan y Contract. Mae'r model hwn yn cynnwys yr holl gostau yr eir iddynt gan y cyflenwr (gweinyddu rhwydweithiau data, teleffoni, costau staff Siemens, gorbenion a chostau trydydd parti) yn ogystal â maint yr elw.

Mae'r model yn seiliedig ar gost sylfaenol a gaiff ei haddasu i fyny neu i lawr yn dibynnu ar baramedrau amrywiol, yn bennaf nifer y lleoliadau, switsys ffôn, gweinyddwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru - Amserlen contract Merlin, 2004*



1.16 Tynnodd Siemens yn ôl o'r negodi ym mis Ebrill 2010 ac ni newidiwyd y model prisio gwreiddiol a ddefnyddiwyd i gyfrifo taliadau gwasanaethau TGCh craidd. Fodd bynnag, ers 2009, bu costau gwasanaethau TGCh craidd yn unol â'r meincnod, neu'n is. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y cyflawnwyd hyn drwy leihad sylweddol mewn costau rhwydwaith, seilwaith TGCh a uwchraddiwyd a oedd yn ei gwneud yn bosibl symud data yn fwy effeithlon rhwng rhwydweithiau, a manteision Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru.

### Ni all Llywodraeth Cymru ddangos p'un a yw'r holl wariant ar wasanaethau prosiect TGCh o dan y Contract yn cynrychioli gwerth am arian

1.17 Er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol drwy'r Contract, mae'n anodd iddi ddangos ei bod yn sicrhau gwerth am arian oherwydd:

a Mae newidiadau i drefniadaeth llywodraeth wedi peri gwariant ychwanegol sylweddol o dan y Contract. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru amcangyfrif effaith pob newid ar wariant, er mwyn asesu p'un a oedd y gwariant ychwanegol yr aed iddo yn rhesymol.

b Nid adolygodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ar gyfer y Contract yn dilyn newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh ac, felly, nid yw'n gallu asesu p'un a yw'r gwariant o dan y Contract yn unol â disgwyliadau.

### Gwariodd Llywodraeth Cymru £24 miliwn o dan y Contract hyd at fis Mawrth 2011 ar eitemau y tu allan i'w phrif gategorïau gwariant

1.18 Gwariodd Llywodraeth Cymru £24 miliwn o dan y Contract ar eitemau megis meddalwedd (yn cynnwys trwyddedau), caledwedd, cydrannau, hyfforddiant a llinellau rhwydwaith data, sydd y tu allan i brif gategorïau gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh. Nid oedd yr achos busnes gwreiddiol yn cynnwys unrhyw amcangyfrif am wariant o'r fath ond, hyd at fis Mawrth 2011, mae'n cynrychioli bron 10 y cant o gyfanswm y gwariant o dan y Contract.

# Rhan 2 – Yn dilyn rhai anawsterau a llithriant o ran moderneiddio'r seilwaith TGCh, mae'r Contract bellach yn darparu gwasanaethau TGCh craidd yn effeithiol

## Yn dilyn oedi a methiannau sylweddol, cyflwynwyd rhaglen newydd i foderneiddio'r seilwaith TGCh

### Cafwyd problemau lu o ran y broses o foderneiddio seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru a bu'n rhaid oedi yn 2005 a 2006

**2.1** Yn ystod y broses o gaffael contract Merlin roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai angen uwchraddio a safoni ei seilwaith TGCh yn fuan ar ôl dechrau'r contract newydd, oherwydd nid oedd wedi'i huwchraddio ers 2000. Ystyriwyd y gost o uwchraddio a safoni fel rhan o’r Contract a'r disgwyl oedd y byddai'r broses yn cael ei chwblhau erbyn mis Mehefin 2005. Nod y prosiect Trawsnewid oedd darparu seilwaith TGCh hollol newydd ('wedi'i drawsnewid') ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad fel yr oedd bryd hynny i gefnogi'r gweithrediadau presennol a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol, yn unol ag arfer gorau a chanllawiau.

**2.2** Eglurodd ein hadroddiad yn 2006 sut roedd problemau a achoswyd gan, ymhlith pethau eraill, y nifer annisgwyl o uchel o raglenni meddalwedd a ddefnyddiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol cyfan a'r gwaith adeiladu yr oedd angen ei gyflawni ar gyfer y gweinyddion newydd, wedi arwain at oedi o ran cwblhau'r prosiect Trawsnewid[8]. Bu'n rhaid oedi'r prosiect ym mis Gorffennaf 2005 er mwyn datrys y problemau hyn a chytunwyd ar amserlen newydd ar gyfer y prosiect. Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Gynghrair y byddai pob rhaglen meddalwedd ansafonol nad oedd yn gofyn am wneud gwaith sylweddol na gwaith caffael i'w gweithredu ar y seilwaith newydd yn cael ei chynnwys yn y prosiect Trawsnewid diwygiedig, yr oedd disgwyl ei gwblhau erbyn mis Medi 2006. Byddai rhaglenni mwy cymhleth yn cael eu trin fel prosiectau TGCh ar wahân o fewn Rhaglen Newid Busnes Llywodraeth Cymru.

**2.3** Gwaethygodd boddhad defnyddwyr â gwasanaethau TGCh yn ystod 2005 a 2006 ac, erbyn mis Ebrill 2006, dim ond 38 y cant o'r 6,500 o ddefnyddwyr a allai ddefnyddio gwasanaethau TGCh modern a safonol, er bod y grŵp hwn yn cynnwys pob Aelod Cynulliad a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (bryd hynny). Roedd defnyddwyr yn anfodlon oherwydd y canlynol:

- **a** oedi o ran cyflwyno'r prosiect Trawsnewid, am fod yn rhaid i staff Siemens ganolbwyntio ar gwblhau gwaith hanfodol cyn uno Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006;
- **b** y problemau technegol gyda'r seilwaith newydd, a oedd yn golygu bod defnyddwyr yn wynebu problemau gyda'r cyfarpar newydd a'r rhaglenni safonedig;
- **c** rhwystredigaeth yn dilyn y broses o uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006 am i seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru ddod yn gymysgedd o fersiynau meddalwedd gwahanol nad oeddent yn cydweddu â'i gilydd, gan ei

8 *Contract Merlin – Galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh, Archwilydd Cyffredinol,* Mawrth 2006, paragraffau 2.25 a 2.26.



gwneud yn anodd rhannu gwybodaeth a pheryglu dibynadwyedd gwasanaethau TGCh craidd.  Roedd defnyddwyr yn wynebu sefyllfa lle nad oeddent yn gallu cyfathrebu'n electronig â'r sawl a oedd yn eistedd drws nesaf iddynt[9].

**2.4** O ganlyniad i'r anawsterau penderfynodd Siemens a Llywodraeth Cymru adolygu dichonolrwydd y prosiect Trawsnewid. Dechreuodd Siemens adolygu dyluniad technegol y prosiect ym mis Chwefror 2006, ac wedi hynny, ym mis Mai 2006, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru oedi'r prosiect a dechrau ei hadolygiad ei hun. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol (bryd hynny) at yr adolygiad hwn yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Ebrill 2006, ond dywedwyd wrthym ers hynny nad oedd ef na'i swyddogion yn ymwybodol bryd hynny o raddau llawn y problemau a gafwyd gyda'r prosiect a fyddai'n arwain at oedi llawer mwy sylweddol wedi hynny.

**2.5** Cyflwynodd tîm yr adolygiad, a arweiniwyd gan Gyfarwyddwr anweithredol Llywodraeth Cymru, ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2006[10]. Nododd fod Llywodraeth Cymru a Siemens wedi tanamcangyfrif yr anawsterau o ran uwchraddio a moderneiddio seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru ac nad oedd y dechnoleg a weithredwyd yn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru.  Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y prosiect trawsnewid gwreiddiol yn ddiffygiol ar y lefel fwyaf sylfaenol o reoli a rheolaeth rhaglenni, yn cynnwys diffyg achos busnes, a bod y prosiect wedi methu â chydymffurfio ag arfer gorau [Swyddfa Masnach y Llywodraeth] ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau'n llwyddiannus, er gwaethaf y ffaith bod y safonau hyn yn ofynion penodol yn y contract.

**2.6** Roedd yr adroddiad hefyd yn cwestiynu digonolrwydd y strwythurau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh ar lefel sylfaenol. O ran y prosiect Trawsnewid, argymhellodd yr adroddiad y dylid cynnal adolygiad o swyddogaeth cwsmer deallus Llywodraeth Cymru a, lle y bo'n briodol, recriwtio staff profiadol. Yn dilyn yr adolygiad, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei strwythurau llywodraethu a dechreuodd ar y broses o recriwtio Cyfarwyddwr TGCh a Gwasanaethau Contract.

**2.7** Ym mis Mawrth 2007, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' yn cynnwys uwch swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn asesu'r opsiynau a oedd ar gael, yn cynnwys y posibilrwydd o derfynu'r Contract (Blwch 4). Daeth y Grŵp i'r casgliad na fyddai newid y cyflenwr ynddo'i hun yn gallu gwarantu gwasanaeth gwell na chostau is, tra y byddai risgiau sylweddol ynghlwm wrth gyflawni ymarfer caffael newydd, o ran y gost, amser, gwasanaethau o ddydd i ddydd a sicrhau cynnydd y broses newid busnes. Felly penderfynodd Llywodraeth Cymru geisio datrys y problemau drwy negodi ac i geisio sicrhau gwell gwasanaeth gan y cyflenwr yn hytrach na therfynu'r contract[11].

**2.8** Nododd adroddiad Tîm Adolygu Merlin ac adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bwysigrwydd atgyfnerthu gallu Llywodraeth Cymru i weithredu fel cleient deallus drwy gyflogi gweithwyr TGCh proffesiynol profiadol. Drwy wella ei gallu ei hun, byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cymryd gwell perchenogaeth o'r gwasanaethau a ddarperir o dan y Contract. Roedd hyn yn arwydd o newid pwyslais yn y Contract, gan symud i ffwrdd o'r bartneriaeth a ragwelwyd yn wreiddiol i gyd-berthynas cyflenwr-contractiwr

9 *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contract Merlin: Adroddiad Terfynol,* Mai 2008.

10 *Adroddiad Tîm Adolygu Merlin,* Gorffennaf 2006.

11 *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contract Merlin,* cofnodion cyfarfod 4 Ebrill 2007.

**Blwch 4 – Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contract Merlin i adolygu opsiynau ar gyfer gwella gwasanaethau TGCh Llywodraeth Cymru**

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contract Merlin gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2007. Adolygodd y Grŵp briodoldeb y Contract yn sgîl problemau o ran cyflawni prosiectau megis y prosiect Trawsnewid, newidiadau i strwythur Llywodraeth Cymru yn dilyn uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a pherfformiad y Gynghrair. Cyfarfu'r Grŵp dros y flwyddyn ddilynol, a chyflwynodd adroddiadau rheolaidd i Ysgrifennydd Parhaol a Bwrdd Rheol Llywodraeth Cymru gan wneud argymhellion allweddol ar hyd y ffordd. Lluniodd y Grŵp adroddiad terfynol ym mis Mai 2008.

*Ffynhonnell: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Merlin: Adroddiad Terfynol, Mai 2008*

mwy traddodiadol, gyda Llywodraeth Cymru yn derbyn yn ôl rai o'r risgiau o gyflawni contract o'r fath yr oedd wedi'u trosglwyddo i'r Gynghrair yn flaenorol, megis nodi gofynion TGCh hirdymor a chadw i fyny â datblygiadau technolegol. Nodwyd bod methiant Llywodraeth Cymru i weithredu fel cleient deallus yn risg allweddol yn flaenorol yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2006 a chan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad yn ddiweddarach yn 2006[12].

## Ers 2007, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy blaenllaw o ran trydydd a phedwerydd cam y prosiect Trawsnewid


**2.9** Ym mis Gorffennaf 2007, penododd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddwr TGCh a Gwasanaethau Contract a oedd yn gyfrifol am adolygu ei gallu technegol a'i gallu i reoli'r Contract yn effeithiol, ynghyd â gwneud argymhellion ar hynny. Arweiniodd y cyfarwyddwr newydd y trafodaethau dylunio a thechnegol o ran cynllunio gwasanaethau TGCh y dyfodol o fewn Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn wahanol i'r dull gweithredu blaenorol lle roedd Llywodraeth Cymru yn nodi gofyniad busnes manwl ac roedd Siemens yn paratoi ac yn argymell datrysiadau technegol ar ei gyfer. Drwy chwarae rôl fwy gweithredol o ran nodi datrysiadau technegol, cymerodd Llywodraeth Cymru fwy o reolaeth o'r broses ond roedd hefyd yn derbyn rhai o'r risgiau yn ôl a drosglwyddwyd yn flaenorol i'r cyflenwr o dan y model partneriaeth. Ym mis Ionawr 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth TGCh i alluogi'r corff corfforaethol ac adrannau i gyflawni eu hamcanion drwy drefniadaeth TGCh sy'n canolbwyntio ar fuddiannau cwsmeriaid ac sy'n nodi atebion arloesol i ddiwallu anghenion busnes[13].

**2.10** Cyflawnwyd gweddill y prosiect Trawsnewid fesul cam yn hytrach na'r dull 'clec fawr' a ddefnyddiwyd yn flaenorol (Ffigur 5). Roedd yn cynnwys y gofyniad i lunio achos busnes ar gyfer pob cam, yn nodi ei amcanion, costau a manteision. Yn ogystal, yn wahanol i'r drefn flaenorol, byddai'r seilwaith newydd arfaethedig yn lleddfu pryderon Llywodraeth Cymru o ran diogelwch TGCh a systemau wrth gefn. Bwriadwyd uwchraddio pob gweithfan i safon gyffredin, yn cynnwys y gweithfannau hynny a oedd wedi'u cynnwys yng ngham cyntaf y prosiect. Rheolwyd y risg o fethiant drwy dreialu'r broses uwchraddio'n llwyddiannus mewn dwy o adrannau Llywodraeth Cymru (sef trydydd cam y prosiect Trawsnewid) cyn cyflwyno'r seilwaith newydd i weddill Llywodraeth Cymru (pedwerydd cam). Nododd cynrychiolydd o is-adran Ystadegau Llywodraeth Cymru, sef un o'r lleoliadau lle treialwyd y system newydd: 'Yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol, roeddem yn rhan o'r broses drawsnewid yn hytrach na fod y broses wedi'i gorfodi arnom, ac rydym yn fodlon iawn ar y canlyniad'[14].

12 *Contract Merlin - Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy TGCh,* adroddiad gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adroddiad Pwyllgor (2) 06-06, Medi 2006.

13 *Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu 2008-2011,* Llywodraeth Cymru, Ionawr 2008.

14 *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contract Merlin: Adroddiad Terfynol,* Mai 2008.



## Ffigur 5 – Gweithredodd Llywodraeth Cymru fesul cam pan ailddechreuwyd y prosiect Trawsnewid yn 2007

| Cam trawsnewid | Disgrifiad | Erbyn |
|---|---|---|
| **Prosiect Trawsnewid gwreiddiol** | | |
| 1 | Y 'Prosiect Trawsnewid' gwreiddiol - uwchraddio'r seilwaith, y galedwedd a'r feddalwedd ar gyfer 6,500 o staff Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (cwblhawyd y gwaith ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad). | Wedi'i gynllunio - mis Ebrill 2005 a mis Mehefin 2005 (Diwygiwyd i fis Medi 2006) |
| 2 | Ymestyn y cam cyntaf i gynnwys y Cyrff a Noddir gan Llywodraeth Cymru a unwyd. Rhoddwyd y gorau i hyn pan fu'n rhaid oedi'r prosiect Trawsnewid am yr eil-dro ym mis Mai 2006. | Wedi'i gynllunio - rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Gorffennaf 2007 |
| **Prosiect Trawsnewid diwygiedig** | | |
| 3 | Prosiect ar gyfer seilwaith TGCh cyffredin newydd gan ddefnyddio technoleg TGCh wedi'i chanoli. Wedi'i dreialu mewn dwy o is-adrannau Llywodraeth Cymru. | Wedi'i gynllunio ac wedi'i gyflawni - rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2008 |
| 4 | Cyflwyno'r seilwaith TGCh newydd ar gyfer 85 y cant o Lywodraeth Cymru, a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a uwchraddiwyd yn flaenorol yng Ngham 1. | Wedi'i gynllunio ac wedi'i gyflawni - rhwng mis Medi 2008 a mis Mawrth 2010 |
| 5 | Cyflwyno'r seilwaith TGCh newydd ar gyfer y 15 y cant sy'n weddill o staff Llywodraeth Cymru nad oedd eu gofynion TGCh yn addas ar gyfer y dechnoleg a gyflwynwyd yn ystod y pedwerydd cam. | Cynlluniwyd ar gyfer 2009-10, ond fe'i cyflawnwyd yn rhannol fel rhan o'r pedwerydd cam - mis Medi 2008 i fis Mawrth 2010. Roedd y pumed cam yn cynnwys prosiect i leihau ôl-troed carbon ystad TGCh Llywodraeth Cymru |
| 6 | Rhoi'r gorau i feddalwedd nas cefnogwyd a'r rheini sy'n cyflawni'r un swyddogaethau â fersiynau diweddarach. | Wedi'i gynllunio ar gyfer 2010-11, ond ni chytunwyd ar y trefniadau ariannu ac ni ddechreuwyd ar y gwaith eto |
| 7 | Cyflwyno Microsoft Office 2007. | Arfaethedig ar gyfer 2010-11, ond ni chytunwyd ar y trefniadau ariannu ac ni ddechreuwyd hyd yn hyn |
| 8 | Uwchraddio Technoleg yn y Dyfodol. | Arfaethedig ar gyfer 2011-12 a 2012-13 |

*Ffynhonnell: Transformation Programme T4 Outline Business Case, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2008; Strategaeth TGCh 2008-2011, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2008*

## Cyflawnwyd trydydd a phedwerydd cam y prosiect Trawsnewid o fewn y gyllideb ac ar amser, ond nid oes sicrwydd ynghylch ariannu gwelliannau yn y dyfodol

**2.11** Dechreuodd pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid ym mis Medi 2008. Heblaw am rai mân achosion o oedi, er enghraifft staff Materion Gwledig yn symud i swyddfa newydd yn Aberystwyth, cwblhawyd y cam ar amser ar ddiwedd mis Mawrth 2010. Darparodd y pedwerydd cam seilwaith TGCh newydd i holl staff Llywodraeth Cymru, a olygodd fod y pumed cam yn canolbwyntio ar leihau ôl-troed carbon ystad TGCh Llywodraeth Cymru.


**2.12** Cyflawnwyd trydydd a phedwerydd cam y prosiect Trawsnewid ychydig o dan y gyllideb y cytunwyd arni ym mis Gorffennaf 2008 (Ffigur 6). Mae'r ffigur hwn yn gyfystyr ag arbed £1 filiwn o gymharu â'r gost y cytunwyd arni'n wreiddiol flwyddyn cyn hynny yn yr achos strategol amlinellol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb oherwydd bod ganddi well dealltwriaeth o'r costau o ganlyniad i dreialu'r prosiect, ac oherwydd ei bod wedi chwarae rôl fwy uniongyrchol drwy fod yn gleient deallus.

**2.13** Mae strategaeth TGCh 2008-2011 yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gynlluniau ar gyfer gwelliannau hirdymor i wasanaethau a darpariaeth TGCh. Rhagwelwyd y rhain fel camau pump i wyth o'r prosiect Trawsnewid. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2011, dim ond pumed cam y prosiect Trawsnewid a gyflawnwyd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi neilltuo unrhyw arian ac nid yw wedi pennu amserlen ar gyfer cyflawni'r gwelliannau eraill.

**Ffigur 6 – Gwariant ar drydydd a phedwerydd cam y prosiect Trawsnewid o gymharu â'r amcangyfrifon achos busnes**

| Eitem | | Achos Amlinellol Strategol (Medi 2007) (£miliwn) | Achos Busnes Amlinellol (Gorffennaf 2008) (£miliwn) | Cost wirioneddol (£miliwn) |
|---|---|---|---|---|
| Cam 3 | | 2.4 | 2.4 | 2.4 |
| Cam 4 | Cyfalaf | 6.0 | 6.8 | 6.6 |
| | Refeniw | 6.1 | 4.3 | 4.4 |
| | Cyfanswm | 12.1 | 11.1 | 11.0 |
| **Cyfanswm** | | **14.5** | **13.5** | **13.4** |

*Ffynhonnell: Rhaglen Drawsnewid. Achos Busnes Strategol T4, Llywodraeth Cymru, Medi 2007*



## Gwelwyd manteision ariannol ac anariannol, ond nid oedd y manteision ariannol y disgwyliwyd i'r seilwaith TGCh newydd eu cyflwyno wedi'u diffinio'n ddigon clir i'w gwerthuso'n effeithiol

### Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r manteision ariannol disgwyliedig o'r prosiect Trawsnewid yn glir

**2.14** Cyfanswm cost y prosiect Trawsnewid oedd ychydig dros £19 miliwn. Fodd bynnag, yn groes i arfer da a dderbynnir yn gyffredinol, nid oedd unrhyw achos busnes ffurfiol nac adolygiad Gateway ar gyfer y prosiect Trawsnewid gwreiddiol. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y prosiect yn hanfodol oherwydd nad oedd ei systemau TGCh wedi'u diweddaru yn ystod blynyddoedd olaf y contract TGCh blaenorol, ac roedd yn angenrheidiol moderneiddio er mwyn i fusnes barhau fel arfer ac i unrhyw raglenni newid gael eu gweithredu yn y dyfodol. Felly, cafodd gofyniad i gyflwyno system TGCh newydd yn fuan ar ôl i'r Contract ddechrau ei gynnwys yn y negodiadau caffael. Fodd bynnag, mae'r methiant i nodi achos busnes ffurfiol ar gyfer y prosiect Trawsnewid yn golygu nad oes unrhyw linell sylfaen y gellir ei defnyddio i werthuso unrhyw fanteision sy'n deillio o gam cyntaf y prosiect.

**2.15** Datblygodd Llywodraeth Cymru achosion busnes ar gyfer trydydd a phedwerydd cam y prosiect Trawsnewid diwygiedig. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y paratowyd yr achosion busnes dros amserlen fer, gan fod brys a blaenoriaeth glir i gyflawni'r seilwaith TGCh safonol ar draws Llywodraeth Cymru. Roedd yr achosion busnes yn canolbwyntio'n bennaf ar y manteision anariannol a ragwelwyd (Blwch 5) ac nid ydynt yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwerthuso unrhyw fanteision ariannol o'r prosiect.

**Blwch 5 – Y canlyniadau a'r manteision a ddymunir o bedwerydd cam y prosiect Trawsnewid**

Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid ym mis Medi 2007 gan yr Is-bwyllgor Strategaeth, sef un o is-bwyllgorau Bwrdd Cyflenwi Strategol a Pherfformiad Llywodraeth Cymru. Roedd yr achos busnes hwn yn amlinellu'r anghenion busnes sylfaenol ar gyfer y cam hwn ar y prosiect. Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol, a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch sut a pham y dylid cyflawni'r prosiect, ym mis Gorffennaf 2008. Nodwyd ystod o ganlyniadau a manteision yn yr Achos Busnes Amlinellol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn anodd eu gwerthuso mewn termau ariannol:

- diogelu busnes arferol;
- galluogi defnyddwyr i gydweithio a chael budd o'r rhaglenni diweddaraf (ee, Microsoft Office);
- seilwaith diogel sy'n cydymffurfio;
- symudedd defnyddwyr a mynediad cyfartal ym mhob un o leoliadau Llywodraeth Cymru;
- darparu llwyfan i gyflwyno rhaglenni corfforaethol/menter, yn cynnwys prosiectau Dylunio Busnes drwy TGCh yn 2008-09;
- darparu gwell rheolaeth i reolwyr;
- cyfuno a rhesymoli caledwedd;
- gwella boddhad defnyddwyr;
- gwell gwerth am arian;
- ateb cynaliadwy.

*Ffynhonnell: Rhaglen Drawsnewid. Achos Busnes Strategol T4, Llywodraeth Cymru, Medi 2007*

## Mae'r prosiect Trawsnewid wedi cyflawni rhai manteision ariannol ac anariannol, yn cynnwys gwell diogelwch gwybodaeth a lleihau ôl-troed carbon Llywodraeth Cymru

**2.16** O dan y prosiect Trawsnewid, trosglwyddwyd holl staff Llywodraeth Cymru, Gweinidogion, Aelodau'r Cynulliad a staff Comisiwn y Cynulliad i system TGCh wedi'i chanoli. Mae'r system yn seiliedig ar dechnoleg sydd â nifer o fanteision o gymharu â chyfrifiaduron personol traddodiadol. Mae'r manteision hyn yn cynnwys caledwedd sy'n para'n hirach, costau is i gynnal systemau, llai o ôl-troed carbon a threfniadau storio data mwy diogel.

**2.17** Nododd ymarfer arfarnu manteision a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010 fwy na 100 o fanteision a 10 o anfanteision o bedwerydd cam y prosiect Trawsnewid. Dosbarthodd Llywodraeth Cymru y manteision hyn yn wyth 'mantais derfynol allweddol', a dewisodd bedair mantais arall i'w dadansoddi ymhellach (Ffigur 7). Fodd bynnag, nid yw'n glir beth oedd yr wyth mantais derfynol allweddol na sut y dewiswyd y pedair mantais arall i'w dadansoddi ymhellach.


**2.18** Cynhaliodd Siemens adolygiad o effaith y prosiect Trawsnewid ar ôl-troed carbon Llywodraeth Cymru[15]. Daeth i'r casgliad, ac eithrio newidiadau TGCh cyfatebol a chan ganiatáu ar gyfer costau ynni cynyddol, y byddai pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid yn lleihau ôl-troed carbon y sefydliad tua 12 y cant ac yn lleihau costau ynni tua £5,000 y mis.

### Ffigur 7 – Crynodeb o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o fanteision pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid

| Mantais | Crynodeb o ganfyddiadau |
|---|---|
| Mantais Werdd | • lleihad o 12 y cant yn yr ôl-troed carbon;<br>• lleihad o 10 y cant yn y defnydd o ynni;<br>• arbed £4,961 y mis ar gostau ynni. |
| Cost darparu gwasanaethau TGCh drwy'r Contract | • Mae'n anodd mesur y fantais o ran costau is sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau TGCh drwy'r Contract gan nad oes unrhyw linellau sylfaen dibynadwy.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dadansoddiad o'r costau a gafodd eu hosgoi, megis peidio â thalu TAW ar wariant cyfalaf, a chostau adnewyddu blynyddol is. |
| Galluogi gweithio hyblyg | • Mae staff yn gallu defnyddio rhaglenni meddalwedd craidd o unrhyw un o safleoedd Llywodraeth Cymru. |
| Galluogi prosiectau corfforaethol a mentrau strategol eraill | • Mae'r prosiect wedi darparu seilwaith TGCh safonol sydd wedi symleiddio'r broses o ddatblygu meddalwedd ar gyfer prosiectau TGCh eraill, er enghraifft galluogi'r gwaith o ddatblygu'r system rheoli cofnodion electronig a dogfennau. |

*Ffynhonnell: Adroddiad Terfynu'r Prosiect Trawsnewid, Llywodraeth Cymru, 2010*

15 Prosiect Cynhyrchu Model Cronni Llwyth Amgylcheddol (ELAM) Llywodraeth Cymru: Pennu effaith y llwyth carbon yn sgil gweithredu Prosiect Trawsnewid T4.



## Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o ran datblygu cofrestr asedau ddibynadwy ac mae wedi datblygu polisi ar gyfer gwaredu a/neu ailddefnyddio asedau yn ddiweddar

**2.19** Mae gan Lywodraeth Cymru tua 17,500 o asedau TGCh gwerth tua £10 miliwn. Ar ddiwedd y contract TGCh blaenorol, trosglwyddwyd perchenogaeth o'r holl asedau TGCh i Lywodraeth Cymru ond nid oedd cofrestr asedau gyflawn bryd hynny. Cododd Llywodraeth Cymru'r broblem hon gyda Siemens yn 2005 ond, oherwydd anghydfod o ran p'un ai Llywodraeth Cymru neu'r cyflenwr a oedd yn gyfrifol am lunio'r gofrestr, prin fu'r cynnydd a wnaed tuag at greu cofrestr asedau. Yn 2007 cynhaliodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru adolygiad o'r rheolaethau a oedd ar waith i benderfynu a oedd gwybodaeth rheoli asedau TGCh a gwybodaeth am asedau dan gontract effeithiol ar gael, a daeth i'r casgliad mai Siemens oedd yn gyfrifol am greu a chynnal cofrestr asedau TGCh.

**2.20** Daeth ail adroddiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol ym mis Medi 2008 i'r casgliad y gwnaed cynnydd sylweddol tuag at sefydlu cofrestr asedau TGCh y gellid ei defnyddio i wneud gwaith monitro, dadansoddi ac adrodd rhagweithiol. Fodd bynnag, fel yr oedd ym mis Gorffennaf 2011, nid oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth lawn o hyd o'r holl asedau TGCh y mae'n berchen arnynt, gan nad yw'r gofrestr yn cynnwys eitemau perifferol megis bysellfyrddau a llygod. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru a Siemens wedi gweithredu system electronig sydd ond yn olrhain asedau TGCh sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith ac sy'n destun dibrisiant.

**2.21** Yn ogystal cododd adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn 2007 bryderon nad oedd gan Lywodraeth Cymru ffordd systematig o waredu asedau TGCh diangen a'i bod yn dueddol o brynu cyfarpar newydd yn hytrach nag ystyried ailddefnyddio asedau presennol, a bod rhai is-adrannau yn storio asedau TGCh yn hytrach na sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio mewn mannau eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai ymestyn hyd oes pob ased ddwy flynedd yn arwain at arbediad untro o £100,000 mewn costau caffael, ac mae hyrwyddo ailddefnyddio asedau TG yn un o'r camau arbed costau a weithredir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Llofnodwyd contract ar gyfer gwaredu asedau TGCh ym mis Ionawr 2009, a bu polisi gwaredu ac ailddefnyddio asedau ar waith ers mis Medi 2010.

## Mae gwasanaethau TGCh craidd a ddarperir o dan y Contract wedi gwella, fel y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyflenwr

### Cyrhaeddwyd safonau gwasanaeth o dan y Contract ar y cyfan, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio diwygio safonau gwasanaeth fel eu bod yn cyd-fynd ag arfer masnachol modern

**2.22** Nodir y safonau ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd y gall Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ddisgwyl eu derbyn yn y Contract. Mae safonau gwasanaeth yn cwmpasu argaeledd gwasanaethau, ateb ceisiadau gwasanaeth ac ymdrin â cheisiadau

o'r fath a'r amser a gymerir gan wasanaethau desg gymorth i unioni problemau. Gweithredir cosbau, ar ffurf credydau gwasanaeth, os yw'r gwasanaeth a ddarperir yn methu â chyrraedd y safonau (Blwch 6). Ystyrir bod nifer y credydau gwasanaeth yn ddangosydd dibynadwy o safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir o dan y Contract. I ddechrau byddai Uned Fasnachol a Chontractau Llywodraeth Cymru[16] yn cyflwyno adroddiadau misol ar berfformiad TGCh i Bennaeth Bwrdd Rheoli Merlin, sef uwch berchennog cyfrifol y Contract. Ers mis Gorffennaf 2007, cyflwynwyd adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau TGCh craidd i'r Cyfarwyddwr TGCh a Gwasanaethau Contract sy'n llunio adroddiad gwasanaeth cryno wythnosol ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol.

**2.23** Lleihaodd nifer y credydau gwasanaeth bob blwyddyn rhwng 2005-06 a 2008-09, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y defnyddwyr, lleoliadau Llywodraeth Cymru, gweinyddwyr a theleffoni. Cynyddodd yn nifer y credydau gwasanaeth yn 2009-10 oherwydd nifer o ddigwyddiadau mawr: ym mis Gorffennaf 2009 cafodd 3,000 o gyfrifon defnyddwyr eu dileu'n ddamweiniol, ac effeithiodd problemau gyda phrif system storio data Llywodraeth Cymru ar argaeledd systemau TGCh am hyd at bedwar diwrnod. Bu lleihad sylweddol yn nifer y credydau gwasanaeth yn 2010-11 (Ffigur 8).

**2.24** Wrth bennu safonau contractau, dylai sefydliadau geisio taro cydbwysedd derbyniol rhwng manteision safonau uchel o wasanaeth a'r gost o'u cyrraedd. Roedd y safonau a nodwyd yng nghontract Merlin yn unol â safonau arferol y diwydiant pan lofnodwyd y Contract yn 2004. Er enghraifft, un safon gwasanaeth yw y dylai gwasanaethau TGCh fod ar gael o leiaf 99.5 y cant o'r amser rhwng 7.00am a 7.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir defnyddio gwasanaethau TGCh y tu allan i'r oriau hyn ond nid yw Siemens yn gwarantu y bydd y gwasanaeth ar gael. Fodd bynnag, yn 2010 yr arfer masnachol safonol oedd pennu targedau ar y sail bod systemau ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yn ein hadroddiad yn 2006 nodwyd bod targedau perfformiad newydd yn cael eu datblygu a fyddai'n adlewyrchu ansawdd y gwasanaeth yn well, yn ogystal â faint o wasanaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, ers hynny ni chyflwynwyd unrhyw dargedau newydd na diwygiedig i mewn i'r Contract.

### Blwch 6 – Mae'r cosbau am berfformiad TGCh gwael ar ffurf credydau gwasanaeth a delir i Lywodraeth Cymru

Eir i gredydau gwasanaeth pan fo argaeledd gwasanaeth ac ansawdd gwasanaethau desg gymorth yn methu â chyrraedd y safonau a nodwyd yn y contract. Mae nifer y credydau gwasanaeth yr eir iddynt ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yn dibynnu ar ei ddifrifoldeb a faint o ddefnyddwyr gwasanaeth yr effeithiwyd arnynt. Er enghraifft, byddai digwyddiad 'lefel 1', megis methiant y system e-bost sy'n effeithio ar fwy na 1000 o ddefnyddwyr, yn golygu mwy o gredydau gwasanaeth na digwyddiad 'lefel 5', megis methiant un cyfrifiadur personol:

- **Argaeledd gwasanaeth** - bydd un digwyddiad 'lefel 1' yn arwain at rhwng 10 a 40 o gredydau, yn dibynnu ar ei ddifrifoldeb;
- **Gwasanaethau desg gymorth** - bydd nifer y credydau gwasanaeth yn dibynnu ar gyfanswm nifer y digwyddiadau/problemau a chyfanswm nifer y ceisiadau i'r ddesg gymorth.


Cyfrifir gwerth un credyd drwy ddefnyddio fformiwla gymhleth, sy'n cynnwys elw datganedig blynyddol canrannol y contractwr am ddarparu gwasanaethau TGCh a'r tâl gwasanaeth blynyddol. Cyfrifir cyfanswm nifer y credydau gwasanaeth bob mis. Caiff ei drosi'n werth ariannol ac mae'r contractwr yn talu'r swm i Lywodraeth Cymru.

*Ffynhonnell: Cytundeb Gwasanaethau Merlin rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Siemens Business Services, Atodlen 3, Gofynion yr Awdurdod, 2006*

16 Mae Uned Fasnachol a Chontractau Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff y Contract ei reoli yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r Uned hefyd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am yr holl wariant TGCh, ac y caiff gwariant o'r fath ei olrhain a'i gofnodi. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth ymgynghori a chynghori ar gyfer prosesau caffael TGCh, cymorth masnachol i brosiectau a gwasanaethau TGCh a gwasanaeth meincnodi gwasanaethau TGCh.



**Ffigur 8 – O 2005-06 bu lleihad blynyddol yn nifer y credydau gwasanaeth tan 2009-10**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru*

## Mae cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a Siemens wedi gwella ers 2006 ac maent bellach yn gweithio'n dda o ran darparu gwasanaethau TGCh craidd

**2.25** Ers dechrau'r broses gaffael, gweledigaeth Llywodraeth Cymru oedd datblygu partneriaeth a fyddai'n fodd i ddefnyddio TGCh i hwyluso a gwella gwaith newid busnes. Ystyriwyd mai manteision partneriaeth effeithiol oedd gwella effeithlonrwydd, sicrhau gwell gwerth am arian o weithgareddau masnachol a sicrhau gwell llwyddiant o raglenni a phrosiectau.

**2.26** Nododd ein hadroddiad yn 2006 y risg y gallai'r gydberthynas ddirywio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gynghrair a rhwng y partneriaid o fewn y Gynghrair. Wedi hynny, profwyd y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Siemens gan yr anawsterau a gafwyd o ran cyflawni'r prosiect Trawsnewid a newidiadau sefydliadol a newidiadau eraill o fewn Llywodraeth Cymru.

**2.27** Rhan o gylch gwaith Tîm Adolygu Merlin pan gafodd ei sefydlu ym mis Mai 2006 oedd nodi'r ffactorau a oedd yn achosi tensiwn o fewn y bartneriaeth a mynd i'r afael â hwy. Gweithiodd aelodau'r Tîm gyda Siemens ac aelodau eraill o'r Gynghrair i nodi'r hyn a oedd yn achosi gwrthdaro a helpu i feithrin cydberthynas fwy effeithiol. Nodwyd mai'r prif feysydd o wrthdaro oedd:

- **a** anallu Llywodraeth Cymru i weithredu fel cleient deallus ar gyfer gwasanaethau TGCh;

**b** prinder tystiolaeth o bartneriaeth wirioneddol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gynghrair;

**c** methiant Siemens i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau'r sefydliadau eraill yn y Gynghrair.

**2.28** Nododd yr adolygiad nad oedd y system rheoli perfformiad a ddefnyddiwyd i gymell y cyflenwr dros gyfnod y Contract yn addas at y diben, am nad oedd yn cefnogi'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Siemens nac yn llywio proses effeithiol o wneud penderfyniadau. Roedd y Contract wedi cynnwys 'mynegai statws cydberthynas' a oedd yn crynhoi data perfformiad a gwybodaeth am y gydberthynas rhwng y Gynghrair a Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr adolygiad, rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r mynegai ym mis Gorffennaf 2006 a bellach mae Llywodraeth Cymru ond yn defnyddio Fframwaith Asesu Cyffredin Swyddfa Masnach y Llywodraeth (Blwch 7), y bu'n ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r mynegai ers mis Ionawr 2006. Mae'r Fframwaith yn fodd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Siemens ac aelodau eraill o'r Gynghrair a rheoli ei chydberthynas â hwy. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Asesu Cyffredin wedi darparu sail gadarnach ar gyfer asesiadau Llywodraeth Cymru o'r Gynghrair a'i pherfformiad, a hefyd ar gyfer nodi barn Siemens am berfformiad Llywodraeth Cymru fel partner contractio. Dengys sgoriau o dan y Fframwaith Asesu Cyffredin fod y gydberthynas yn gwella'n raddol, o asesiad cyffredinol 'gwael' yn hanner cyntaf 2006 i 'da' ym mis Chwefror 2010[17].


### Blwch 7 – Defnyddir Fframwaith Asesu Cyffredin Swyddfa Masnach y Llywodraeth i asesu perfformiad Siemens ac aelodau eraill y Gynghrair

Yn 2006, lansiodd Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Masnach y Llywodraeth Fframwaith Asesu Cyffredin ar gyfer cynnal asesiad blynyddol o berfformiad cyflenwyr ar brosiectau TGCh mawr llywodraeth ganolog. Cyhoeddwyd yr adroddiad Fframwaith cyntaf gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2006.

Caiff cyflenwyr eu hasesu yn erbyn 10 o feini prawf perfformiad yn cynnwys y gost, perfformiad technegol a chydberthnasau. Mae cyflenwyr hefyd yn destun asesiad cyffredinol nad yw'n seiliedig ar feini prawf. Mae'r Fframwaith Asesu Cyffredin hefyd yn galluogi cyflenwyr i wneud sylwadau am berfformiad pob Adran fel partner contractio, ac felly yn darparu gwybodaeth am y gydberthynas waith â phob Adran yn ogystal â pherfformiad Llywodraeth y DU yn ei chyfanrwydd.

*Ffynhonnell: ICT Common Assessment Framework CAF6 Report, Office of Government Commerce, 2009*

17 Ystyrir bod sgorau'r Fframwaith Asesu Cyffredin yn 'fasnachol-gyfrinachol'.



## Ar y cyfan mae Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad wedi derbyn gwasanaethau TGCh craidd dibynadwy o dan y Contract ac mae Comisiwn y Cynulliad yn paratoi opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol

### Ar y cyfan bu Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn fodlon ar wasanaethau TGCh craidd, er eu bod yn parhau i fod yn anfodlon ar rai meysydd o hyd

**2.29** Llywodraethir y gwasanaethau TGCh craidd a dderbynnir o dan y Contract gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae gofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn wahanol i ofynion Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran eu defnydd o gysylltu-o-bell, y rhyngrwyd a rhwydweithio cymdeithasol. Mae safonau gwasanaeth yn wahanol hefyd. Ar y cyfan, cafwyd llai o anawsterau mewn perthynas â gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion yng Nghomisiwn y Cynulliad (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gynt) na gwasanaethau i Lywodraeth Cymru, yn rhannol oherwydd blaenoriaethwyd Aelodau a swyddogion y Cynulliad yn y prosiect Trawsnewid a chawsant wasanaethau TGCh craidd wedi'u huwchraddio a'u moderneiddio yn 2006.

**2.30** Dywedodd swyddogion Comisiwn y Cynulliad wrthym, ac eithrio'r problemau gweithredol a gafwyd yn 2009 (gweler paragraffau 2.2 a 2.3), roedd lefelau boddhad Aelodau a swyddogion y Cynulliad â gwasanaethau TGCh yn parhau'n dderbyniol wrth eu hasesu drwy Arolygon Meincnodi Gwasanaethau TGCh a Boddhad Defnyddwyr blynyddol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd sy'n achosi pryder:

- **a** Dywedodd swyddogion Comisiwn y Cynulliad eu bod o'r farn bod y Contract wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru a'u bod yn cael anhawster i gael newidiadau wedi'u gwneud sy'n adlewyrchu gofynion a blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae swyddogion o'r farn mai prin yw eu dylanwad, gan fod tâl Comisiwn y Cynulliad am wasanaethau TGCh yn cynrychioli llai na 5 y cant o gyfanswm y gwariant o dan y Contract.
- **b** Mae Aelodau'r Cynulliad wedi mynegi eu pryderon yn rheolaidd o ran y problemau a wynebwyd gyda chysylltu-o-bell.
- **c** Cafwyd mwy o fân fethiannau yn 2010, y mae Siemens a Chomisiwn y Cynulliad yn cytuno eu bod yn debygol o ddeillio o ddefnyddio hen gyfarpar. Uwchraddiodd Comisiwn y Cynulliad ei gyfarpar yn ystod haf 2010 a bu llai o fethiannau ers hynny.

### Mae Comisiwn y Cynulliad wedi datblygu prosiect i wella gwasanaethau TGCh ar gyfer Aelodau a staff ac mae'n adolygu ei gostau o dan y Contract

**2.31** Ers gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn 2006, mae Comisiwn y Cynulliad wedi ehangu ei allu TGCh mewnol yn sylweddol. Ym mis Gorffennaf 2008 sefydlodd Comisiwn y Cynulliad adolygiad annibynnol, yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol, o'r holl dechnoleg a ddefnyddiwyd i gefnogi ei fusnes, yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau, staff a'r cyhoedd.  Nod yr adolygiad oedd cyflwyno cynigion i'r Comisiwn i ddatblygu ei allu


technegol i wella ac ehangu dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd, a gwella'r ffordd y gellir cefnogi Aelodau i gyflawni eu rolau. Nododd yr adolygiad mai'r brif flaenoriaeth i Aelodau'r Cynulliad oedd gallu cysylltu â systemau TGCh o le bynnag y maent yn gweithio. Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau o'r farn nad oedd ganddynt fynediad digonol o'u cartrefi na'u swyddfeydd etholaethol i'w galluogi i ddefnyddio'r systemau'n effeithiol.

**2.32** Ym mis Mehefin 2009, cytunodd Comisiwn y Cynulliad y dylid uno rwydwaith TGCh y Cynulliad fel bod gan Aelodau a staff y Cynulliad system gyffredin ar wahân i rwydwaith Llywodraeth Cymru. Yn flaenorol, roedd gan Aelodau'r Cynulliad rhwydwaith ar wahân i swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Byddai'r system TGCh unedig yn cael ei huwchraddio a'i moderneiddio, gan wella diogelwch a chadernid yn erbyn methiant. Cwblhawyd y prosiect i greu'r system TGCh unedig gan Siemens ym mis Hydref 2010 am gost o £4.3 miliwn. Mae hyn yn fwy na'r gost o £2.7 miliwn a amcangyfrifwyd ym mis Mehefin 2009, yn bennaf am i gost caledwedd gan Siemens gael ei thanamcangyfrif, a gwella parhad busnes drwy gyflwyno ail ganolfan ddata. Dylai'r gwaith o ddatblygu'r system unedig ei gwneud yn haws i Gomisiwn y Cynulliad ystyried ei opsiynau yn annibynnol ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol pan ddaw'r Contract i ben yn 2014. Mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu cynnal dadansoddiad llawn o'i gostau o dan y Contract er mwyn ystyried a yw'n cynrychioli gwerth da am arian. At y diben hwn, mae'n ceisio eglurder a manylder gan Siemens a Llywodraeth Cymru o ran ei gyfran o gyfanswm y costau o dan y Contract.

## Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad reoli risgiau allweddol o ran caffael gwasanaethau TGCh craidd ar ôl i'r Contract ddod i ben yn 2014

**2.33** Mae'r Contract yn para tan 2014, gydag opsiwn i'w ymestyn bum mlynedd arall. Cymerodd hi dros ddwy flynedd i gaffael y contract, a bu'n rhaid ymestyn y contract blaenorol ar gyfer gwasanaethau TGCh er mwyn gallu cwblhau'r broses gaffael yn foddhaol. Awgryma hyn fod angen i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ddechrau eu prosiectau caffael yn fuan os yw un neu'r ddau yn penderfynu peidio ag ymestyn y Contract yn 2014. Dylai'r asesiad o ofynion ystyried yr holl ofynion TGCh, nid dim ond y rheini a ddarperir o dan y Contract ar hyn o bryd.

**2.34** Mae Comisiwn y Cynulliad yn ystyried pedwar opsiwn: parhau â'r gwasanaethau a rennir gyda Llywodraeth Cymru; rhannu gwasanaethau mewn partneriaeth â deddfwrfeydd eraill y DU; gosod ei gontract allanol ei hun; neu ddarparu gwasanaethau TGCh yn fewnol. Yn y cyfamser, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella a gwahanu seilwaith Comisiwn y Cynulliad o seilwaith Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r Comisiwn i derfynu'r Contract pan fo'n dewis gwneud hynny. Drwy wahanu bydd mwy o opsiynau ar gael i Gomisiwn y Cynulliad, yn cynnwys yr opsiynau o dendro am wasanaethau TGCh newydd ar wahan neu ar y cyd â chyrff eraill.



# Rhan 3 – Mae'r Prosiectau TGCh a gyflawnwyd o dan y Contract wedi dwyn manteision ond nid oes sicrwydd ynghylch eu gwerth am arian

3.1 Yn 2004, comisiynwyd PA Consulting, sef aelod o'r Gynghrair, i nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer newid busnes drwy TGCh. Ym mis Mai 2005, cytunodd Llywodraeth Cymru ar ran gyntaf deg prosiect TGCh yn Llywodraeth Cymru (y prosiectau Sylfaen - Atodiad 3).

3.2 Hyd at fis Mawrth 2011, gwariodd Llywodraeth Cymru £156 miliwn o dan y Contract ar brosiectau TGCh. Mae hyn yn cynrychioli gwariant ar y prosiect Trawsnewid, a chefnogaeth ar gyfer y deg prosiect Sylfaen a bron 60 o brosiectau TGCh eraill.

3.3 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar drefniadau rheoli Llywodraeth Cymru ar gyfer y deg prosiect Sylfaen gwreiddiol, a chostau a manteision y prosiectau hynny. Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn neu eu holynwyr wedi cyfrif am tua £70 miliwn o gyfanswm y gwariant ar bob prosiect TGCh hyd at fis Mawrth 2011.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei dull o reoli prosiectau TGCh ers i'r Contract ddechrau yn 2004

3.4 Roedd y meysydd â blaenoriaeth a nodwyd gan PA Consulting ar gyfer Rhaglen Merlin, a oedd yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o weithredu newid ac roedd yn canolbwyntio ar newid busnes drwy TGCh. Yn ystod hydref 2004, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Contract ddarparu fframwaith cyflenwi y gellid ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau TGCh er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Merlin.

3.5 Yn 2005, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y rhan gyntaf o ddeg prosiect TGCh, sef y prosiectau Sylfaen, a oedd yn rhan o Raglen Merlin. I ddechrau rheolwyd y rhaglen ac agweddau eraill ar ddarpariaeth Merlin gan Fwrdd Rheoli Merlin (Blwch 8) ond, yn sgîl ehangu agenda newid Llywodraeth Cymru yn 2006, ad-drefnwyd strwythurau llywodraethu ar ddechrau 2007.

**Blwch 8 – Swyddogaethau Bwrdd Rheoli Merlin**

Roedd swyddogaethau Bwrdd Rheoli Merlin fel a ganlyn:

- gwneud penderfyniadau ar brosiectau TGCh newydd a phrosiectau TGCh a gymeradwywyd eisoes ac, fel y bo angen, adolygu penderfyniadau uwch berchenogion cyfrifol a oedd yn rhedeg prosiectau TGCh;
- gweithredu fel Bwrdd Rhaglen ar gyfer prosiectau TGCh;
- rheoli cyllideb fuddsoddi gyffredinol prosiectau TGCh;
- datrys problemau o ran prosiectau, neu broblemau masnachol neu gytundebol, ac ymdrin â hwy'n briodol;
- olrhain ac adolygu costau a chyflawni manteision prosiectau TGCh;
- derbyn a monitro gwersi a ddysgwyd o brosiectau, i'w cymhwyso ar draws y rhaglen ehangach;
- goruchwylio cydlynu prosiectau o fewn Rhaglen Merlin i ddarparu'r rhaglen newid cyffredinol.

*Ffynhonnell: Cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwrdd Rheoli Merlin, Mai 2005*

3.6 Yn 2006, ehangodd Llywodraeth Cymru ei rôl a'i swyddogaethau, yn dilyn y broses o uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Bu hyn, a chyfres o ffactorau eraill, megis gwahanu'r Cynulliad Cenedlaethol o Lywodraeth Cymru, yn sbardun i Lywodraeth Cymru adolygu ei dull o newid busnes ac adolygu trefniadau cyflenwi. Penderfynodd Llywodraeth Cymru i ddisodli Rhaglen Merlin

gydag agenda strategol newydd ac ailgynlluniodd raddau, natur a threfniadau llywodraethu prosiectau newid er mwyn iddynt fod yn gydnaws â'r agenda newydd. Cafodd prosiectau newid, yn cynnwys llawer o brosiectau nad oeddent yn brosiectau TGCh, eu hymgorffori mewn rhaglenni fel rhan o'r Portffolio Datblygu Busnes, sef y Portffolio Hwyluso Llywodraeth yn ddiweddarach. Ni chaiff pob un o brosiectau TGCh y Portffolio Hwyluso Llywodraeth eu cyflawni drwy'r Contract.

**3.7** Ar wahân i'r prosiectau Ceisiadau Olrhain Gwybodaeth a phrosiectau Diogelwch Gwybodaeth, a gwblhawyd, ymgorfforwyd yr holl brosiectau Sylfaen yn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth yn 2007-08. Er enghraifft, trosglwyddwyd prosiect y System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau i'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Gwybodaeth[18]. A throsglwyddwyd y prosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth fel rhan o'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Cwsmeriaid ac, yn 2010-11, fe'i hail-enwyd y Rhaglen Gwella ein Cysylltiadau. Ymgorfforwyd y prosiectau Sylfaen yn y Portffolio ochr yn ochr â phrosiectau TGCh newydd eu nodi a phrosiectau nad oeddent yn brosiectau TGCh fel rhan o fuddsoddiad arfaethedig o £40 miliwn dros dair blynedd.

**3.8** Arweiniodd y Portffolio Hwyluso Llywodraeth at newid trefniadau llywodraethu'r prosiectau a oedd yn rhan ohono, yn cynnwys prosiectau TGCh a oedd yn cael eu darparu drwy'r Contract. Cynlluniodd Llywodraeth Cymru y trefniadau llywodraethu newydd i ddarparu mwy o dryloywder, mwy o ffocws ar amcanion strategol, gwell cydgysylltu ac integreiddio o ran gweithgarwch newid, a mwy o botensial ar gyfer dysgu a rennir.

**3.9** O fewn fframwaith llywodraethu'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth, mae'n ofynnol i reolwyr prosiect gyflwyno adroddiadau misol ar gostau prosiect, lefelau staffio, manteision a chynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol i fyrddau prosiect (os ydynt yn bodoli) a byrddau rhaglenni. Fodd bynnag, llesteiriwyd gallu Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd y prosiectau Sylfaen gan drefniadau annigonol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol, ac nid yw dogfennau cau prosiectau bob amser yn nodi'n glir sut mae prosiectau wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr amserlenni a'r costau gwreiddiol. Er enghraifft:

- **a** nid yw'r dogfennau terfynu prosiect sy'n ymwneud â System Rheoli a Thalu grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn nodi pryd yr oedd disgwyl cwblhau'r prosiect, a ailddechreuodd ym mis Gorffennaf 2007;
- **b** nid yw'r dogfennau terfynu prosiect ar gyfer y System Gwybodaeth Adnoddau Dynol yn casglu p'un a gwblhawyd y prosiect ar amser ac yn unol â'r gyllideb arfaethedig.

**3.10** O dan Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-2011, ffurfiolwyd trefniadau llywodraethu ychwanegol ar gyfer prosiectau TGCh (yn cynnwys prosiectau TGCh sydd y tu hwnt i gwmpas y Portffolio Hwyluso Llywodraeth a phrosiectau nas cyflawnir drwy'r Contract) drwy sefydlu Awdurdod Dylunio Strategol TGCh a Bwrdd Rhaglenni TGCh. Mae'r Awdurdod Dylunio Strategol yn asesu cadernid technegol prosiectau a'r graddau y maent yn gydnaws â'r Strategaeth TGCh, cyn cymeradwyo cyllid a chyn y daw prosiectau'n gwbl weithredol. Caiff prosiectau eu hasesu gan Fwrdd Rhaglenni TGCh hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn destun trefniadau rheoli prosiect TGCh arfer gorau.

18 Ailenwyd prosiect y System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau yn 'i-share' o fewn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth 2010-11.



## Cafwyd problemau o ran cyflawni rhai o'r prosiectau Sylfaen cychwynnol

**3.11** Cwblhawyd pump o'r 10 prosiect Sylfaen gwreiddiol bellach (Ffigur 9). Cyflawnwyd dau o'r prosiectau a gwblhawyd (sef Ceisiadau Olrhain Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth) ar amser ac o fewn y gost amcangyfrifedig gyda'r tri phrosiect arall yn costio mwy a/neu'n cymryd mwy o amser i'w cyflawni nag a ragwelwyd yn eu hachosion busnes gwreiddiol:

- **a** Cafwyd dros flwyddyn o oedi o ran prosiect System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Y gost derfynol i weithredu'r system oedd £18.1 miliwn[19], sef dwywaith yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol (Astudiaeth Achos 1).
- **b** Cyflawnwyd prosiect Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru o fewn y gyllideb wreiddiol, ond methwyd â chyflawni rhai elfennau o fewn yr amserlen arfaethedig ac, o ganlyniad, gaffaelodd Llywodraeth Cymru ei gwasanaethau rhyngrwyd y tu allan i'r Contract (Astudiaeth Achos 2).
- **c** Roedd prosiect Cam 2 Systemau Adnoddau Dynol Gwasanaethau a Rennir yn cynnwys dwy elfen: System Wybodaeth Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol. Ni chwblhawyd elfennau allweddol o'r System Gwybodaeth Adnoddau Dynol (er enghraifft, i alluogi staff i ddiweddaru eu cofnodion Adnoddau Dynol eu hunain ac i alluogi rheolwyr i reoli absenoldeb oherwydd salwch yn well) o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Roedd cost derfynol yr elfen Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol bron 19 y cant yn fwy na'r gyllideb wreiddiol sef £403,000. Nid yw'r ddogfen terfynu prosiect derfynol yn cynnwys gwybodaeth am gostau'r elfen System Wybodaeth.

**3.12** Rhoddodd Llywodraeth Cymru derfyn ar ddau o'r deg prosiect Sylfaen, sef Cynllunio a Chyllidebu Integredig (a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2007) a Systemau Gwybodaeth Reoli (a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2008), yn ystod y broses ddatblygu. Rhoddwyd terfyn ar y rhain gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymgorffori ei hamcanion yn y rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant[20] a gyflawnwyd gan ddefnyddio gwasanaethau a ddarparwyd y tu allan i'r Contract. O'r tri phrosiect sy'n weddill:

- **a** Y nod oedd cwblhau prosiect y System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau yn 2010, yn dibynnu ar argaeledd arian. Wedi hynny, oherwydd cyfyngiadau ariannu, yn sgîl yr angen i daro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau croes, penderfynwyd i ddatblygu'r prosiect hwn fesul cam. Bwriedir ei gyflwyno'n llawn ym mis Mawrth 2012 bellach, er bod Llywodraeth Cymru yn hyderus y caiff ei gyflawni'n gynt, erbyn mis Rhagfyr 2011. Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei disgwyliadau o ran y manteision ariannol a allai ddeillio o'r prosiect hwn, er mwyn canolbwyntio'r prosiect ar alluogi cydymffurfiaeth ag argymhellion archwiliad gan yr Archifau Gwladol yn 2007. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ar hyn yn dilyn ymgynghori â rheolwyr prosiectau tebyg a gyflawnwyd gan adrannau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn cyflawni arbedion ariannol

19 Roedd hyn yn cynnwys £6.1 miliwn o arian cymorth technegol o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

20 Nod y rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant oedd gwella ansawdd a chysondeb gwybodaeth reoli a newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r broses o ddyrannu adnoddau a chynllunio busnes. Terfynwyd y prosiect ym mis Rhagfyr 2010 a chafodd ei rannu'n nifer o brosiectau ar wahân a gyflawnwyd drwy is-adrannau ac adrannau amrywiol Llywodraeth Cymru fel rhan o 'parhau yn ôl yr arfer'.

## Ffigur 9 – Cwblhawyd hanner y prosiectau Sylfaen

| Prosiect | Statws cyfredol |
|---|---|
| Olrhain ceisiadau am wybodaeth | Cwblhawyd |
| System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | Cwblhawyd |
| Cam 2 Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol Gwasanaethau a Rennir | Cwblhawyd |
| Gwasanaethau Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru | Cwblhawyd |
| Diogelwch Gwybodaeth | Cwblhawyd |
| Cynllunio a Chyllido Integredig | Wedi ymgorffori amcanion y prosiect yn y rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant, a gyflawnwyd drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth. |
| Systemau Gwybodaeth Reoli | Cwblhawyd camau cychwynnol y prosiect. Ymgorfforwyd yr amcanion prosiect ar gyfer camau dilynol yn y rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant, a gyflawnwyd drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth. |
| Seilwaith Galluogi Rhaglenni | Cyflawnwyd yn rhannol drwy ddau brosiect gwahanol o dan y Portffolio Hwyluso Llywodraeth gyda rhannau eraill yn cael eu diwygio neu eu cau. |
| System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau | Y gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth a disgwylir ei gwblhau ym mis Mawrth 2012. Aildrefnwyd yr amserlen er mwyn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael. |
| Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid | Wedi'i ariannu ar y cyd drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Disgwylir ei gwblhau ym mis Hydref 2011. Diwygiwyd y Cysyniad a'r amserlen yn sylweddol. |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennau prosiect Llywodraeth Cymru*



## Astudiaeth Achos 1 – Prosiect System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

### Amcanion y prosiect

Amcan allweddol y prosiect hwn oedd cyflwyno datrysiad TG a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i reoli'r broses o ddyrannu cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a'u gweinyddu'n barhaus[21] mewn ffordd a oedd yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Nod y prosiect oedd creu proses gwbl gyfrifiadurol ar gyfer rheoli grantiau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd o'r dechrau tan y diwedd, yn cynnwys taliadau electronig a rheoli dogfennau electronig. Hon fyddai'r broses gyntaf o fewn Llywodraeth Cymru i weithredu gwasanaeth gyfan gwbl ar-lein.

### Oedi

Dechreuodd y prosiect ym mis Awst 2005 ac roedd disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2007 yn barod ar gyfer lansio rhaglenni 2007-2013. Roedd y prosiect yn araf iawn yn dechrau, ac ym mis Chwefror 2007, cafodd Llywodraeth Cymru wybod gan y Gynghrair fod y prosiect ymhell ar ei hôl hi, ac y byddai angen rhwng 4,770 ac 8,270 o ddiwrnodau ychwanegol i'w gwblhau (dros y terfyn cytûn o 1,230 diwrnod). Roedd nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn cynnwys dylunio system ochr yn ochr â negodi rhaglenni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, cael eglurhad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran yr hyn yr oedd am i'r system ei wneud a diffyg gallu i weithredu fel cwsmer deallus. Ymateb Llywodraeth Cymru oedd oedi ac adolygu'r prosiect. Ailddechreuodd gwaith ar y prosiect, gyda llai o gwmpas a chyllideb ddiwygiedig, ym mis Gorffennaf 2007.

Ym mis Awst 2007, mewn ymateb i bryderon pellach o ran cost ac amserlen cyflawni'r prosiect, penododd Llywodraeth Cymru ei rheolwr prosiect ei hun a oedd yn meddu ar arbenigedd technegol perthnasol.

Aeth y system yn fyw ym mis Mehefin 2008. O ganlyniad i'r oedi, penderfynodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru uwchraddio'r gronfa ddata a etifeddwyd a ddefnyddiwyd ganddi ar gyfer cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2000-06 fel ateb wrth gefn, ond prin iawn fu'r defnydd a wnaed ohoni.

### Cynnydd mewn costau

Amcangyfrif gwreiddiol y gost o ddatblygu'r system i'r pwynt lle y byddai'n barod i'w weithredu oedd £7.7 miliwn. Cynyddodd yr amcangyfrif hwn sawl tro ac yn y pendraw £18.1 miliwn oedd cost cyflawni'r prosiect. Cydariannwyd y prosiect gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, a gyfrannodd £6.1 miliwn at gost y system. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu dadansoddiad manwl o'r cynnydd mewn costau datblygu, nododd ymarfer gwersi a ddysgwyd ystod eang o broblemau, yn cynnwys trefniadau amcangyfrif gwael mewn perthynas â phrosiect mor uchelgeisiol, ehangiad y cwmpas, diffyg arbenigedd technegol i weithredu fel cwsmer deallus a methiant i ymgysylltu â defnyddwyr busnes allweddol yn ddigon cynnar yn y broses o ddatblygu'r prosiect.

Mae gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gontract pris sefydlog o £7.4 miliwn gyda'r Gynghrair am gymorth parhaus i'r system dros wyth mlynedd. Mae hefyd wedi mynd i gostau ar gyfer trwyddedu (£230,000 y flwyddyn) a chaledwedd a seilwaith TGCh (£100,000 y flwyddyn). Mae'r contract cymorth yn cynnwys y gallu i ddiweddaru ac uwchraddio'r system yn barhaus heb fynd i gostau ychwanegol. O ganlyniad, mae pob elfen o'r prosiect a hepgorwyd yn 2007 bellach wedi'i hymgorffori yn y system ac ychwanegwyd swyddogaethau newydd sylweddol.

Er gwaethaf y cynnydd mewn costau a'r oedi o ran gweithredu, nododd dogfen derfynu'r prosiect fod yn rhaid cydnabod yr unionwyd y sefyllfa yn y pen draw, a chyflawnodd y prosiect ddatrysiad cadarn sy'n diwallu gofynion busnes Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn llawn, gyda'r cam olaf, ar ôl mis Gorffennaf 2007, yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen a'r gyllideb ddiwygiedig. Yn ogystal, Cymru oedd y 'rhanbarth' gyntaf i gael 'Statws Sicrwydd Llawn' gan yr Undeb Ewropeaidd ar ei systemau talu, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi'r system fel enghraifft o arfer da. Enillodd y contract cymorth wobrau'r Gymdeithas Contractau Allanol Genedlaethol ac Ewropeaidd ar gyfer 2010 am gontract TG allanol y flwyddyn.

Defnyddir y system fel meincnod ar gyfer pob system sy'n cefnogi'r cylch diweddaraf o arian strwythurol ymhob rhan o'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r system eisoes yn cyrraedd y safonau a bennir ar gyfer rhaglenni ar ôl 2014, sy'n golygu bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn disgwyl y gellir defnyddio'r system am wyth mlynedd arall heb fod angen buddsoddi fawr ddim yn ychwanegol. Mae elfennau o'r dechnoleg hefyd yn cael eu hailddefnyddio mewn prosiectau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â grantiau a gwasanaethau ar-lein.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

21 Rhwng 2007 a 2013, bydd economi Cymru a phobl ledled Cymru yn gweld buddsoddiad o tua £3.8 biliwn (arian cyfatebol o £1.9 biliwn o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd) drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, gyda'r nod o greu swyddi a hybu twf economaidd.

### Astudiaeth Achos 2 – Cafwyd anawsterau sylweddol o ran cyflawni Prosiect Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru

Yn 2006, ehangodd rôl a swyddogaethau Llywodraeth Cymru yn sylweddol ar ôl uno nifer o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd angen gwefan newydd ar Lywodraeth Cymru gyda rhywfaint o gynnwys yn dod o wefannau'r Cyrff a unwyd. Lansiwyd gwefan newydd ar amser ym mis Ebrill 2006, ond honnodd Llywodraeth Cymru nad oedd y cyflenwr wedi darparu swyddogaethau allweddol yr oedd eu hangen i gefnogi'r broses o drosglwyddo cynnwys ychwanegol o'r cyrff a unwyd. Arweiniodd yr anghytuno at anghydfod masnachol gyda'r Gynghrair, gan oedi'r gwaith o gwblhau'r prosiect Rhyngrwyd 18 mis. Yn ystod yr amser hwn, ni chyflawnwyd y manteision effeithlonrwydd a ragwelwyd o gyfuno nifer o wefannau gwahanol.

Ym mis Chwefror 2008, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer caffael ar gyfer ei gwasanaethau rhyngrwyd y tu allan i gontract Merlin. Dyfarnwyd y contract i Verizion sydd bellach yn darparu gwasanaethau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

blynyddol o £500,000, er bod yr amcangyfrifon gwreiddiol a wnaed yng nghyfnod sylfaen y prosiect wedi rhagweld arbedion blynyddol o £1.8 miliwn.

**b** Oherwydd y broses o uno'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru o fewn Llywodraeth Cymru, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi terfyn ar ei phrosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid gwreiddiol a diwygio cwmpas y prosiect, gan ystyried gofynion y sefydliad a ehangwyd. Caiff ei weithredu fel rhan o raglen adnewyddu'r economi gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae disgwyl ei gyflawni ym mis Hydref/Tachwedd 2011

**c** Nid aeth y prosiect Galluogi Seilwaith Rhaglenni rhagddo fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, ac ailbennwyd y prosiect o dan y Portffolio Hwyluso Llywodraeth i ddod yn ddau brosiect ar wahân (y Strategaeth Rhaglenni TGCh a Rhaglenni TGCh - Cynllunio ar gyfer Cyflawni Busnes). Cwblhawyd prosiect y Strategaeth Rhaglenni TGCh ym mis Ionawr 2008, tra cafodd y prosiect Rhaglenni TGCh - Cynllunio ar gyfer Cyflawni Busnes ei ddiwygio ymhellach. Er na wnaeth y prosiect diwethaf gyflawni pob un o'i amcanion arfaethedig, arweiniodd at sefydlu'r Awdurdod Cynllunio Strategol TGCh.

## Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rheoli rhai o'r risgiau i werth am arian wrth gyflawni prosiectau TGCh yn gyson


**3.13** Gall prosiectau TGCh fod yn gymhleth a chynnwys risgiau yn gynhenid, gan ymwneud â thechnoleg arloesol ac anwadal iawn ar adegau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector cyhoeddus yn y DU wedi bod yn gyfrifol am nifer o achosion proffil uchel a drud o brosiectau TGCh yn methu[22].

**3.14** Ceir nifer o risgiau cynhenid o ran sicrhau gwerth am arian o brosiectau TGCh a gyflawnir drwy gontract Merlin. Os y'u gwireddir, byddai'r risgiau hefyd yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i asesu perfformiad y Gynghrair o ran cyflawni prosiectau TGCh. Nododd ein hadroddiad yn 2006 risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau TGCh a gyflawnir gan ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir drwy'r Contract:

**a** methiant Llywodraeth Cymru i wireddu'r manteision arfaethedig;

**b** peidio â monitro cyfanswm y gwariant ar brosiectau TGCh perthnasol yn effeithiol;

22 The National Offender Management Information System, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2009; Delivering successful IT-enabled business change, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Tachwedd 2006; Improving IT procurement: The impact of the Office of Government Commerce's initiatives on departments and suppliers in the delivery of major IT-enabled projects, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Tachwedd 2004; New IT systems for Magistrates' Courts: the Libra project, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2003.



c diffyg sgiliau a gallu o fewn Llywodraeth Cymru iddi weithredu fel cwsmer deallus;

d defnydd helaeth o gaffael ar sail 'amser a deunyddiau';

e gweithio gydag un cyflenwr.

**Er bod rhai prosiectau unigol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer gwerthuso manteision prosiectau, nid yw'r manteision ariannol wedi'u nodi, eu coladu na'u monitro'n gyson**

**3.15** Dylai'r broses o wireddu manteision fod yn un barhaus sy'n dechrau ar gam cynnar o unrhyw raglen neu brosiect. Rhaid i reolwyr rhaglenni a rheolwyr prosiect fod yn glir o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni a manteision disgwyliedig cyflawni hynny, a rhoi mesurau ar waith i asesu'r manteision a wireddwyd. Heb dystiolaeth glir o'r manteision, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu asesu gwerth am arian na pherfformiad y Gynghrair o ran darparu gwasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh.

**3.16** Cafwyd gennym er bod pob un o'r pum prosiect Sylfaen a gwblhawyd wedi cyflawni rhai manteision ariannol ac anariannol (Atodiad 4), mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwireddu manteision, yn enwedig manteision ariannol, yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd:

a nid oedd y manteision disgwyliedig wedi'u nodi'n ddigonol ar gyfer rhai prosiectau Sylfaen;

b nid yw Llywodraeth Cymru wedi monitro manteision pob un o'r prosiectau Sylfaen mewn modd systematig;

c llesteiriwyd gwaith Llywodraeth Cymru o ran monitro'r manteision ariannol a gyflawnwyd gan y prosiectau Sylfaen gan ddata anghyson ac anghyflawn;

d nid yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi gwybodaeth am gostau a manteision yn ei galluogi i gynnal asesiad cyffredinol o werth am arian prosiectau TGCh a gefnogir drwy'r Contract.

**3.17** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y canfyddiadau hyn. Ym mis Rhagfyr 2010, cafodd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Gwasanaethau Canolog y newyddion diweddaraf am drefniadau llywodraethu, manteision, risgiau a chynlluniau'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth ar gyfer y dyfodol, sy'n cynnwys nifer o brosiectau TGCh a gefnogir gan wasanaethau a ddarperir drwy'r Contract. Er y cyflawnwyd rhai o'r manteision, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y cawsant eu hasesu'n anghyson ac argymhellodd y dylai'r ffordd y caiff manteision eu mesur gael ei hystyried ar ddechrau prosiect. Hysbyswyd y Pwyllgor o'r canlynol hefyd:

a prin oedd yr ymdrechion a wnaed gan reolwyr raglenni i ymgysylltu â'r busnes fel mater o drefn er mwyn nodi'r manteision a wireddwyd;

b bydd angen i reolwyr rhaglenni wella'r ffordd yr ymgysylltant â'r busnes o ran cytuno ar y manteision disgwyliedig o'r cychwyn a thrwy gydol oes y rhaglen;

c er i'r sefydliad weld manteision ariannol sylweddol yn sgîl y rhaglenni, nid yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i nodi'r manteision hyn yn glir nac ychwaith lle y cawsant eu gwireddu[23].

23 Portffolio Hwyluso Llywodraeth, Papur ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu Gwasanaethau Canolog Llywodraeth Cymru, 7 Rhagfyr 2010.

## Y manteision a ragwelir ar gyfer rhai prosiectau Sylfaen

**3.18** Er mwyn gwerthuso tebygolrwydd prosiect TGCh o lwyddo a ph'un a ddylai fynd rhagddo, dylid nodi manteision disgwyliedig y prosiect yn glir. O'r pum Prosiect Sylfaen nas cwblhawyd, nodwyd gennym fod dau ohonynt wedi nodi'r manteision a ragwelwyd, ond nid oedd tri phrosiect wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, o'r pum prosiect Sylfaen a gwblhawyd, cafwyd mai dim ond un, sef Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth, nad oedd wedi nodi lefel ddisgwyliedig y manteision ariannol ac anariannol yn ddigonol.

**3.19** Ar gyfer y pedwar prosiect a gwblhawyd sy'n weddill, roeddem yn gallu olrhain y manteision a gyflawnwyd yn erbyn y manteision a ragwelwyd yn wreiddiol. Cafwyd gennym fod pob un o'r pedwar prosiect wedi gwireddu rhan helaeth o'r manteision a ragwelwyd:

- **a** **System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** – ers mynd yn fyw ym mis Mehefin 2008, mae'r system ond wedi gwireddu ychydig yn llai na hanner yr arbedion blynyddol a ragwelwyd sef £555,000. Drwy gynnwys swyddogaeth arbenigol yn y system, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni arbediad untro pellach o £330,000 drwy osgoi'r angen i adnewyddu meddalwedd drwyddedig. Mae'r system wedi galluogi mynediad i Gronfeydd Strwythurol yr EU, wedi gwella trefniadau olrhain prosiectau ac wedi lleihau'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau grant.


- **b** **Systemau Adnoddau Dynol y Gwasanaethau a Rennir** – gwireddwyd y manteision ariannol a ragwelwyd sef £1 filiwn dros oes y prosiect, yn ogystal ag arbedion cylchol dilynol. Mae'r system hefyd wedi gwella trefniadau rheoli absenoldeb, rheoli perfformiad, diogelwch sefydliadol a recriwtio.

- **c** **Gwasanaeth Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru** – cyflawnwyd y prosiect fesul cam, gyda'r tri cham cyntaf wedi'u cyflawni drwy'r Contract. Ystyriwyd nifer o senarios o ran arbedion ariannol untro yn amrywio o arbedion o £4.1 miliwn i £5.2 miliwn. Fodd bynnag, dim ond £2.2 miliwn mewn arbedion a gyflawnwyd rhwng 2006-07 a 2011-12.

- **d** **Diogelwch gwybodaeth** – ni ragwelwyd unrhyw fanteision ariannol o'r prosiect, ond llwyddodd i gyflawni ei amcan o gydymffurfio â'r safonau rhyngwladol mewn perthynas â pholisïau, arferion a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth.

## Nid yw Llywodraeth Cymru wedi monitro'r manteision a gyflawnwyd gan bob un o'r prosiectau Sylfaen mewn modd systematig

**3.20** Arfer da Swyddfa Masnach y Llywodraeth yw cynnal ymarfer gwireddu manteision ffurfiol fel cam allweddol a therfynol Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Fel arfer cynhelir yr ymarfer hwn yn ystod chwe mis cyntaf y prosiect neu'r rhaglen, ac yna caiff ei ailadrodd drwy gydol oes y prosiect. Cynhaliwyd ymarferion gwireddu manteision ar gyfer pedwar o'r pum prosiect a gwblhawyd ar ôl iddynt ddod yn gwbl weithredol, er mai ymarferion untro oeddent ac nid ydynt wedi'u hailadrodd ers hynny.



**3.21** Ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer gwireddu manteision digonol ar gyfer un prosiect Sylfaen a gwblhawyd (Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth). O ganlyniad, er bod Llywodraeth Cymru yn hyderus fod y prosiect Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth wedi cyflawni ei amcanion ac wedi cyflawni arbedion ariannol sylweddol, nid oedd yn gallu mesur yr arbedion a gyflawnwyd gan y prosiect.

**3.22** Yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth, dylai unrhyw brosiect a fu'n destun gwariant sylweddol ac achosion dilynol o gau (er efallai nad oedd y prosiect wedi'i gwblhau) fod yn destun ymarfer gwireddu manteision fel rhan o'r broses ffurfiol o gau'r prosiect. Cyn ymgorffori'r prosiectau hyn yn ei rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £659,000 ar y prosiect Systemau Gwybodaeth Reoli a'r prosiect Cynllunio a Chyllidebu Integredig. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso holl fanteision y prosiectau hyn. Nodwyd rhai o fanteision cam cychwynnol y prosiect Systemau Gwybodaeth Reoli wedi hynny gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr astudiaeth hon (Blwch 9). Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd gwaith ar y Prosiect Cynllunio a Chyllido Integredig yn ddigon datblygiedig i gyflawni unrhyw fanteision ar yr adeg y'i gohiriwyd.

**3.23** Nod prosiect Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru oedd creu system recriwtio ar-lein i helpu i ddenu a chadw'r gweithwyr gorau a chynyddu nifer yr ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Fodd bynnag, oherwydd dirywiad mewn lefelau recriwtio allanol dros y blynyddoedd diwethaf, ni fu digon o ddata i fesur llwyddiant neu fethiant y prosiect o ran cyflawni'r amcanion hyn.

### Blwch 9 – Manteision y prosiect Systemau Gwybodaeth Rheoli a nodwyd fel rhan o'r astudiaeth hon

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ffrwd waith Rheoli ar gyfer Cyflenwi ei rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant wedi ymgorffori'r bobl, y syniadau a'r datrysiadau proses a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect Sylfaen Systemau Gwybodaeth Reoli. Er enghraifft, datblygwyd y dangosfwrdd corfforaethol a'r dangosfwrdd perfformiad adrannol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn wreiddiol fel rhan o'r prosiect Systemau Gwybodaeth Reoli.

Darparodd Llywodraeth Cymru enghreifftiau o'r prosiect Systemau Gwybodaeth Reoli yn cyflawni ei amcan o wella perfformiad drwy roi adroddiadau gwybodaeth reoli mwy defnyddiol i uwch swyddogion Llywodraeth Cymru:

- Rhyddid Gwybodaeth - mewn ymateb i wybodaeth fonitro, penderfynodd Bwrdd Rheoli Llywodraeth Cymru leihau'r terfyn amser ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o 100 diwrnod i 80 diwrnod. Roedd y ffocws cynyddol ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn golygu bod nifer yr ymatebion hwyr i geisiadau wedi lleihau'n sylweddol o 34 ym mis Mawrth 2007 i ddau yn unig ym mis Mawrth 2008.
- Delweddau amhriodol - ar ôl darparu'r data cychwynnol i'w Bwrdd Rheoli, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ymwybyddiaeth gyfathrebu, gan amlinellu ei pholisi dim goddefgarwch. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae hyn wedi lleihau nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â delweddau amhriodol yn sylweddol.
- Gohebiaeth - roedd gwybodaeth reoli o ansawdd gwell wedi gwella'r broses o fonitro cynnydd wrth ymdrin â gohebiaeth swyddogol, a dderbynnir ac a anfonir gan swyddogion ar ran Gweinidogion ynghyd â'r broses o gyflwyno adroddiadau arno.

Roedd y System Gwybodaeth Reoli hefyd yn galluogi'r Bwrdd Rheoli i gael gafael ar ystod ehangach o ddata nag o'r blaen, gan arwain at well trefniadau cyllidebu a chynllunio'r gweithlu, er enghraifft o ran ystadegau perfformiad staff a recriwtio, nad oeddent ar gael yn flaenorol.

*Ffynhonnell: Ymateb Llywodraeth Cymru i gais Swyddfa Archwilio Cymru*

### Mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer gwerthuso'r manteision ariannol a gyflawnwyd gan brosiectau TGCh, ond mae cryn dipyn o'r data perthnasol yn anghyson ac yn anghyflawn

**3.24** Yn dilyn ein hadroddiad yn 2006, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull o ymdrin â gwireddu manteision. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu ei Fframwaith Rheoli Manteision yn 2007 fel rhan o'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y Portffolio Hwyluso Llywodraeth. Nod y fframwaith llywodraethu yw sicrhau bod pob prosiect newid o fewn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth yn cefnogi'r broses o ddatblygu nodau busnes Llywodraeth Cymru yn glir ac yn lliniaru'r risg y caiff prosiectau eu llywio gan dechnoleg yn hytrach na busnes. Felly, mae fframwaith llywodraethu'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth yn canolbwyntio'n gryf ar wireddu manteision prosiectau a rhaglenni:

- **a** un o'r egwyddorion allweddol yw y dylai pob penderfyniad ar brosiectau a rhaglenni ganolbwyntio ar eu heffaith o ran y manteision arfaethedig;
- **b** mae gan bob rhaglen a phrosiect gynllun manteision sy'n nodi'r manteision disgwyliedig, yn cynnwys pryd a sut y caiff manteision eu cyflawni a phwy sy'n gyfrifol am olrhain y broses o'u cyflawni;
- **c** arweinir pob rhaglen gan uwch swyddog cyfrifol sydd â'r dasg o sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni'r manteision a ragwelwyd.

**3.25** Ers 2007-08, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio coladu gwybodaeth am berfformiad yn ganolog ar gyfer pob prosiect o fewn y Portffolio Hwyluso Llywodraeth, o ran ei gostau a chyflawni'r manteision a ragwelir. Wrth ystyried y prosiectau Sylfaen a ymgorfforwyd yn y fframwaith Hwyluso Llywodraeth, cafwyd gennym fod Llywodraeth Cymru wedi wynebu problemau o ran coladu manteision ar lefel prosiect a chyflwyno adroddiadau arnynt. Mae hyn wedi llesteirio'i gallu i gynnal dadansoddiad cost a budd cadarn o bob rhaglen a phrosiect a llunio barn ar berfformiad ei gyflenwyr o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn:

- **a** Yn 2007-08, casglwyd gwybodaeth am y manteision ariannol amcangyfrifedig yn unig, heb unrhyw asesiad o ba arbedion a wnaed mewn gwirionedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi canolbwyntio ar fanteision sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn ystod 2007-08.
- **b** O 2008-09, er ei bod yn ofynnol i dimau prosiect gyflwyno adroddiad ar y manteision ariannol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, cafwyd gennym fod data ar goll mewn perthynas â rhai prosiectau. Er enghraifft, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw ddata ar fanteision ariannol ar gyfer 2008-09 mewn perthynas â'r prosiect System Wybodaeth Adnoddau Dynol a phrosiect Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd y data ar gael oherwydd nad oedd timau prosiect yn cyflwyno adroddiadau ar y manteision ariannol a gyflawnwyd i'r Tîm Portffolio Hwyluso Llywodraeth, a oedd yn goruchwylio'r broses goladu, yn hytrach nag oherwydd nad oedd y prosiectau wedi cyflawni unrhyw fanteision.



**3.26** Canfuwyd anghysondebau hefyd yn y wybodaeth a roddwyd i ni am gynnydd prosiect Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei fanteision ariannol. Nododd data a ddarparwyd yn uniongyrchol gan dîm prosiect y Rhyngrwyd fod y prosiect wedi cyflawni £199,469 o fanteision ariannol yn 2009-10[24], tra nododd y data a gadwyd yn ganolog gan y Tîm Portffolio Hwyluso Llywodraeth nad oedd y prosiect wedi cyflawni ei darged o £110,000 o fanteision ariannol ar gyfer y flwyddyn honno. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr anghysondeb oherwydd nad oedd gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau i ddilysu lefel yr arbedion a honnwyd gan y tîm prosiect. Roedd anghysondebau hefyd o ran y prosiect Rhyngrwyd rhwng gwybodaeth am y manteision ariannol a ragwelwyd, yn ogystal â'r manteision gwirioneddol a gyflawnwyd, a roddwyd i ni'n ganolog gan Dîm Portffolio Hwyluso Llywodraeth Llywodraeth Cymru a'r tîm prosiect.

## Nid yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi gwybodaeth am gostau a manteision yn ei galluogi i gynnal asesiad cyffredinol o werth am arian gwasanaethau sy'n cefnogi prosiectau TGCh a gaffaelwyd o dan y Contract

**3.27** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad cost a budd i asesu'r gwerth am arian cyffredinol a gyflawnwyd ar gyfer y £156 miliwn a wariwyd ganddi hyd yma o dan y Contract ar wasanaethau i gefnogi prosiectau TGCh. Byddai'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi yn peri anawsterau sylweddol i Lywodraeth Cymru wrth gynnal dadansoddiad o'r fath:

**a** ni chaiff gwariant o dan y Contract, a gofnodir ar log caffael Merlin, ei ddyrannu i godau adnabod unigryw prosiectau;

**b** nid yw'r wybodaeth am fanteision ariannol a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn gadarn;

**c** er bod gan Lywodraeth Cymru gofnod canolog, er yn llai cadarn, o'r manteision ariannol a gyflawnwyd drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth, nid oes ganddi gofnod canolog o'r manteision ariannol a gyflawynwyd gan bob prosiect sydd wedi caffael gwasanaethau o dan y Contract, gan mai cymharol brin yw'r prosiectau TGCh sy'n rhan o'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth, ac felly ni chânt eu rheoli drwy fframwaith llywodraethu'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth.

## Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro gwariant o dan y Contract ar brosiectau TGCh mwyach nac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny

**3.28** Ar ddechrau'r Contract, sefydlwyd Bwrdd Rheoli Merlin i fonitro pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh a ddarparwyd o dan y Contract. Ymhlith pethau eraill, roedd y Bwrdd yn gyfrifol am fonitro costau prosiectau TGCh a oedd yn gysylltiedig â chontract Merlin, a chawsai adroddiadau misol ar gyfanswm y gwariant o dan y Contract. Ym mis Gorffennaf 2007, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh: diddymwyd Bwrdd Rheoli Merlin, dyrannwyd atebolrwydd am wasanaethau TGCh craidd i Gyfarwyddwr Gwasanaethau TGCh a Rheoli Contractau, ac ail-gadarnhawyd mai'r adrannau noddi perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru oedd yn atebol am gyflawni'r prosiectau TGCh unigol.

24 Cafwyd anghysondebau tebyg ar gyfer 2008-09 rhwng y data a gadwyd gan y tîm Hwyluso Llywodraeth a Chynllun y Sefydliad a'r prosiect Rhyngrwyd.

**3.29** O dan y trefniadau hyn, nid oes yr un swyddog na chorff o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro cyfanswm y gwariant ar brosiectau TGCh a gefnogir gan wasanaethau a ddarperir o dan y Contract, ac ni chaiff adroddiadau ar wariant prosiectau TGCh o dan y Contract eu cyflwyno ar wahân i Fwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol Llywodraeth Cymru na'i Grŵp Gweithrediadau. Mae'r trefniadau newydd wedi llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i asesu perfformiad y Gynghrair mewn perthynas â chefnogi pob prosiect TGCh a gwerth am arian cyffredinol y Contract. Er bod rheolwyr prosiect unigol yn cadw trosolwg ariannol o wariant eu prosiectau unigol, cedwir yr unig gofnod canolog o gostau gwaith prosiect TGCh a gyflawnir gan y Gynghrair o dan y Contract gan yr Uned Fasnachol a Chontractau yn log caffael Merlin[25], ond nid yw'r log caffael wedi'i gynllunio i gynnwys gwybodaeth reoli am gost a statws prosiectau TGCh unigol.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei gallu i reoli rhaglenni a phrosiectau ond ni all fesur effaith hyn o ran lleihau gwariant ar gymorth allanol ar gyfer prosiectau TGCh

**3.30** Un o nodau gwreiddiol y Contract oedd i drosglwyddo sgiliau o’r Gynghrair i staff Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu asesu p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni’r nod yma’n llwyddiannus, drwy leihau ei wariant ar gymorth allanol ar lefel prosiect[26]. Y rheswm dros hyn yw am nad yw gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r data perthnasol o flwyddyn i flwyddyn.

**3.31** Yn ystod y broses o gaffael y Contract, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ganddi ddiffyg sgiliau o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau TGCh. Ei nod oedd adeiladu ei chapasiti yn y maes hwn drwy fanteisio ar gyfleoedd i weithio ochr yn ochr ac mewn partneriaeth ag arbenigwyr o'r Gynghrair. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai ei swyddogion yn datblygu i fod yn rheolwyr rhaglenni neu'n rheolwyr prosiect mwy medrus drwy weithio mewn partneriaeth ac, yn y tymor hwy, y byddai'r sefydliad yn hunangynhaliol o ran y sgiliau hyn.

**3.32** Nododd ein hadroddiad yn 2006 fod y broses o drosglwyddo'r sgiliau perthnasol i Lywodraeth Cymru yn digwydd yn arafach na'r disgwyl, yn rhannol oherwydd y nifer uchel o swyddi gwag yn Uned Datblygu Busnes Merlin Llywodraeth Cymru[27]. Yn ei adroddiad yn 2006 argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei gallu a'i galluedd i gyflawni ei weithgareddau newid busnes a oedd yn gysylltiedig â Merlin drwy ddatblygu grŵp o reolwyr prosiect a rheolwyr rhaglenni hyfforddedig[28].

**3.33** Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu ei threfniadau ar gyfer cefnogi'r broses o gyflawni rhaglenni a phrosiectau drwy:


a **Gymryd mwy o rôl arweiniol o ran dadansoddi anghenion busnes a rheoli ei rhaglenni newid.** Hyd at 2006-07, staffiwyd Uned Datblygu Busnes Merlin Llywodraeth Cymru yn rhannol gan ymgynghorwyr o'r Gynghrair. Ers hynny, arweiniwyd yr agenda newid busnes ehangach gan swyddogion Llywodraeth

25 Log Caffael Merlin yw’r cofnod gwariant canolog ar gyfer prosiectau TGCh drwy’r Contract. Fe’i cynhelir gan yr Uned Fasnachol a Chydymffurfiaeth sy’n gyfrifol am lunio’r ‘memoranda gwasanaeth prosiect’ (sef contractau bach yn eu hanfod) ar gyfer gwaith prosiect gyda’r Gynghrair.

26 *Contract Merlin - Galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh,* Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mawrth 2006. Ffigur 6 a Pharagraff 2.38.

27 *Contract Merlin - Galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh,* Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mawrth 2006. Paragraff 2.38.

28 *Contract Merlin - Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy TGCh.* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Pwyllgor Archwilio (2) 06-06, Medi 2006.



Cymru, a gafodd gymorth fel y bo angen gan y Gynghrair i ddechrau (Ffigur 13).

**b** **Creu grŵp proffesiynol o reolwyr rhaglenni a rheolwyr prosiect.** Ym mis Gorffennaf 2008, penododd Llywodraeth Cymru Bennaeth Proffesiwn ar gyfer Rheoli Prosiectau a Rhaglenni[29]. Aeth ati hefyd i sefydlu cronfa o arbenigwyr rheoli prosiect a oedd ar gael i bob maes o fewn Llywodraeth Cymru lle yr oedd angen rheolwyr prosiect arbenigol. Roedd y gronfa yn cynnwys staff profiadol o'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a unwyd.

**c** **Adolygu'r cymorth sydd ar gael i'w uwch staff sy'n gweithredu fel uwch berchenogion cyfrifol ar gyfer prosiectau a rhaglenni newid busnes.** Ym mis Mawrth 2009, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg sgiliau o'r Timau Gweithrediadau sy'n cefnogi pob Cyfarwyddwr Cyffredinol, er mwyn nodi p'un a oedd sgiliau rheoli prosiectau a rhaglenni priodol ar gael. Nododd yr arolwg nad oedd sgiliau rheoli prosiectau a rhaglenni yn ofyniad craidd ar gyfer Timau Gweithrediadau. O fis Mai 2010, dechreuodd Llywodraeth Cymru sefydlu canolfan ragoriaeth rheoli prosiectau a rhaglenni, gyda'r gwaith o ddarparu cefnogaeth arbenigol i staff y Timau Gweithrediadau ymhlith swyddogaethau'r Ganolfan.

**3.34** O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'n dod yn llai dibynnol ar gymorth gan y Gynghrair wrth i'r Contract fynd rhagddo ac y byddai'r gwariant ar gymorth ymgynghorol yn lleihau. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru, dros amser, wedi bod yn monitro'r gwariant ar gymorth gan y Gynghrair o dan y Contract. Er bod tystiolaeth nad yw gweithrediadau newid busnes canolog Llywodraeth Cymru yn gallu dibynnu ar y Gynghrair mwyach (Blwch 10), gwnaed defnydd helaeth o staff y Gynghrair fel ymgynghorwyr ar brosiectau TGCh unigol.

**Blwch 10 – Dros amser mae lefel y cymorth allanol o dan y Contract i staff newid busnes canolog Llywodraeth Cymru wedi gostwng**

Ers i'r Contract ddechrau ym mis Ebrill 2004, bu gan Lywodraeth Cymru staff penodol sydd wedi gweithio ar ddatblygu a chyflawni agweddau ar ei hagenda newid busnes. I ddechrau, sefydlwyd Uned Datblygu Busnes Merlin Llywodraeth Cymru er mwyn:

- darparu cyfeiriad strategol i'r agenda newid busnes drwy TGCh ar ffurf dadansoddiad busnes;
- datblygu a chefnogi'r broses o gyflawni'r prosiectau Sylfaen.

Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn Uned Datblygu Busnes Merlin ochr yn ochr ag ymgynghorwyr o PA Consulting i ddatblygu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau Sylfaen, sef trefniant a oedd yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i ddysgu gan yr ymgynghorwyr. Rhwng 2004 a 2007, gwariwyd £4.3 miliwn ar staff y Gynghrair i gefnogi Uned Datblygu Busnes Merlin. Bu'r gwaith mwyaf, o ran PA Consulting, yn ystod 2006-07, pan roedd chwe ymgynghorydd (cyfwerth ag amser llawn) yn cefnogi Uned Datblygu Busnes Merlin.

Bellach cyflawnir rhai o swyddogaethau strategol Uned Datblygu Busnes Merlin fel rhan o gylch gorchwyl newid ehangach gan y tîm Hwyluso Llywodraeth. O dan y trefniadau hyn, nid yw Llywodraeth Cymru yn cael cymorth gan PA Consulting.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

29 Ceir 23 o grwpiau 'proffesiynol' o fewn gwasanaeth sifil y DU, o filfeddygon i gyfathrebu. Mae gan bob grŵp Bennaeth Proffesiwn sy'n gyfrifol am bennu safonau proffesiynol a datblygu trefniadau rheoli perfformiad at ddiben asesu cymhwysedd proffesiynol.

## Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n cefnogi prosiectau TGCh a gaffaelwyd ar sail 'amser a deunyddiau' yn effeithiol

**3.35** Cafwyd gennym fod dwy ran o dair o'r gwariant ar y prosiectau TGCh a gaffaelwyd o dan y Contract o ganlyniad i sail 'amser a deunyddiau', lle y mae taliadau'n seiliedig ar nifer yr oriau a weithiwyd (Ffigur 10). Cyfanswm gwerth y gwaith 'amser a deunyddiau' a dalwyd o dan y Contract oedd £81.3 miliwn (ac eithrio treuliau a TAW) hyd at fis Mawrth 2010.

**3.36** Nid yw contractau ar sail 'amser a deunyddiau' yn cynnwys premiwm ychwanegol i'r contractwr dderbyn rhai o'r risgiau o ran cyflawni'r prosiect, a gall fod yn rhatach na chontractau pris sefydlog cymaradwy. Fodd bynnag, fel arfer nid ydynt yn annog contractwyr i fod yn effeithlon yn uniongyrchol, ac mae angen i'r cwsmer fonitro gwaith y contractwr yn drwyadl er mwyn cael sicrwydd bod y contractwr yn defnyddio dulliau effeithlon a mesurau rheoli costau effeithiol.

**3.37** Mae'r risgiau yn arbennig o uchel wrth ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori lle bod tuedd i ddefnyddio contractau amser a deunyddiau. Mae gwariant ar ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn cyfrif am 9 y cant o'r gwariant ar adnoddau allanol o dan y contract, gydag 81 y cant o hyn drwy gontractau amser a deunyddiau. Canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd adrannau llywodraeth y DU yn 'gwsmeriaid deallus' o ran ymgynghorwyr oherwydd y defnydd helaeth o gontractau amser a deunyddiau, methiant o ran diffinio'r gwasanaeth sydd ei angen gan gontractwyr yn glir, methiant o ran asesu buddiannau a methiant o ran dal cyflenwyr yn atebol[30].

### Ffigur 10 – Caffaelwyd y rhan fwyaf o'r gwaith prosiectau TGCh ar sail yr amser a weithiwyd[1]


| Math o gontract | Nifer y contractau | Gwerth presennol (Heb gynnwys treuliau a TAW) (£ miliwn, ar 31 Mawrth 2010) | % Cyfanswm gwerth |
|---|---|---|---|
| Amser a deunyddiau | 311 | 81.3 | 61 |
| Pris sefydlog | 72 | 45.8 | 34 |
| Cyfuniad o bris sefydlog ac amser a deunyddiau | 25 | 6.9 | 5 |
| **Cyfanswm** | **408** | **134** | **100** |

**Noder**

1 Nid yw'n cynnwys 56 o femoranda gwasanaeth prosiect a ganslwyd wedi hynny. Gwerth gwreiddiol y memoranda hyn oedd £24.7 miliwn a gwariwyd £2.1 miliwn o'r swm hwn pan gawsant eu canslo (heb gynnwys treuliau a TAW).

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Log Caffael Llywodraeth Cymru, 31 Mawrth 2010*

30 *Central government's use of consultants and interims,* y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mis Hydref 2010.



**3.38** Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gaffaelir ar sail amser a deunyddiau, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyflawni canlyniadau a ddymunir yn un o amodau contractau o'r fath. Mae hefyd wedi cynnwys cymalau gwarant diffygion ar gyfer prosiectau amser a deunyddiau risg uchel. Fodd bynnag, nodwyd gennym na wnaed unrhyw amcangyfrif o gostau ar ddechrau'r prosiect ar gyfer 70 y cant o'r prosiectau a gyflawnwyd ar sail 'amser a deunyddiau'. O ran y prosiectau TGCh hynny y gwnaed amcangyfrif gwreiddiol o gostau ar eu cyfer, roedd yr amcangyfrif ym mis Ebrill 2010 yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol mewn 23 y cant o achosion.

**3.39** Cyflawnwyd y broses o ddylunio a gweithredu prosiect System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sef y prosiect TGCh mwyaf a gefnogwyd gan wasanaethau a ddarperir o dan y Contract, drwy chwe chontract amser a deunyddiau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oedd wedi monitro'r contractau mewn ffordd gadarn ac, ym mis Chwefror 2007, nid oedd yn ymwybodol bod angen rhwng 4,770 ac 8,270 o ddiwrnodau ychwanegol dros y nifer gytûn o 1,230 i'w gyflawni (Astudiaeth Achos 1).

## Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio darpariaethau'r Contract i liniaru rhai o'r risgiau o weithio gydag un cyflenwr

**3.40** Nid yw'r Contract yn cyfyngu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio gwasanaethau'r Gynghrair yn unig. Mae'r Contract hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth y gall Llywodraeth Cymru dreialu unrhyw brosiect TGCh gwerth mwy na £500,000[31]. Diben y ddarpariaeth hon yw helpu i sicrhau gwerth am arian ar gyfer ei gwaith prosiectau TGCh a gyflawnir o dan y Contract. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon i ystyried a threialu cyfleoedd i gaffael rhai gweithgareddau newid busnes a phrosiectau TGCh y tu allan i'r Contract (Astudiaethau Achos 2 a 3).

## Astudiaeth Achos 3 – Ystyriodd Llywodraeth Cymru'r posibilrwydd o gaffael gwasanaethau i gefnogi'r prosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y tu allan i'r Contract

Cynlluniwyd y prosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid diwygiedig i gefnogi'r broses o gyflawni'r hyn a elwir ar hyn o bryd yn wasanaeth Cymorth Hyblyg i Fusnes Llywodraeth Cymru, er bod y gwasanaeth hwn yn destun ailfrandio ar hyn o bryd. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer treialu ar gyfer datblygu'r prosiect. Hysbyswyd Siemens o fwriad Llywodraeth Cymru a chafodd ei wahodd i wneud cynnig. Ymatebodd pum Gwahoddiad i Dendro. Enillodd Siemens y contract, ar ôl cael y sgôr uchaf yn erbyn y meini prawf dethol.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

31 Nid ystyrir ei bod yn addas treialu prosiectau os oes cysylltiad mor agos rhyngddynt â'r seilwaith TGCh craidd fel na ellid disgwyl yn rhesymol i gyflenwr arall gyflenwi'r gwasanaeth neu'r cynnyrch.

# Atodiad 1 – Ein dulliau

1 Mae'r astudiaeth ddilynol hon yn deillio o ymrwymiad a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2006 i gyflwyno adroddiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni manteision arfaethedig y Contract[32].

## Adolygiad o lenyddiaeth

2 Wrth ddatblygu'r astudiaeth edrychwyd ar ddau o adroddiadau allweddol Llywodraeth Cymru ar gontract Merlin: Adroddiad Tîm Adolygu Merlin (Gorffennaf 2006) ac adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Merlin (Mai 2008). Gwnaethom hefyd adolygu Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-11 (Ionawr 2008), gan hefyd olrhain datblygiad rhaglen i-change Comisiwn y Cynulliad ac ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol perthnasol (Blwch 11).

## Dadansoddi costau'r Contract

3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyllidebu gwario £220 miliwn dros gyfnod deng mlynedd y Contract rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2014. Defnyddiwyd data a ddarparwyd gan Uned Fasnachol a Chontractau Llywodraeth Cymru i olrhain y gwariant amser gwirioneddol (h.y. a anfonebwyd) a'r gwariant a ymrwymwyd i wasanaethau TGCh craidd, prosiectau TGCh a nwyddau a gwasanaethau 'eraill' hyd at 21 Mawrth 2010[33].

**Blwch 11 – Adroddiadau diweddar gan sefydliadau Archwilio eraill y DU**


Yn 2006, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adolygiad o 24 o brosiectau newid drwy TGCh llwyddiannus yn y DU ac yn rhyngwladol. Nod hyn oedd profi nad lwc, ond barn gadarn, oedd yn gyfrifol am brosiectau TGCh llywodraethol llwyddiannus. Nododd yr adroddiad dair egwyddor sy'n sylfaen i lwyddiant: sicrhau ymgysylltiad uwch swyddogion; gweithredu fel cleient deallus a chanolbwyntio ar wireddu manteision. Hefyd, nododd yr adroddiad 10 o weithgareddau sy'n allweddol i gyflawni prosiect yn llwyddiannus.

Yn 2010, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar ddefnydd llywodraeth ganolog o ymgynghorwyr a staff dros dro. Nododd fod costau ymgynghori wedi lleihau rhwng 2006-07 a 2007-08, ac wedi parhau'n sefydlog ers hyn. Priodolwyd y lleihad i wella cywirdeb y gwaith o gofnodi gwariant ar ymgynghorwyr yn hytrach na llai o ddibyniaeth ar ymgynghorwyr mewn termau real. Roedd y canfyddiadau perthnasol fel a ganlyn:

- nid oedd gan adrannau wybodaeth sylfaenol megis faint o arian a wariwyd fesul gwasanaeth ymgynghori;
- mae'r rhan fwyaf o gontractau yn seiliedig ar yr amser a weithir gan ymgynghorydd ar brosiect yn hytrach na phris sefydlog neu daliadau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau;
- nid yw adrannau yn asesu unrhyw fanteision a wireddir yn ddigonol, ac nid ydynt yn ceisio cysylltu unrhyw fanteision â'r gwasanaethau ymgynghori a gaffaelwyd;
- gan amlaf mae adrannau'n dibynnu ar ymgynghorwyr ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau a TG, ac roedd y galw am y ddau fath hyn o wasanaeth ymgynghori wedi cynyddu ers cyhoeddi adroddiad blaenorol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005.

32 Ym mis Ebrill 2006 ystyriodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol effeithiolrwydd Contract Merlin o ran darparu TGCh a newid busnes o fewn y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn cyhoeddi adroddiad cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar gyfer rheoli'r Contract yn y dyfodol a chaffael contractau TGCh dilynol. Nododd y Pwyllgor ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y contract newydd a dywedodd ei fod yn disgwyl ailystyried y mater yn y dyfodol.

33 Mae'r categori 'arall' yn cynnwys meddalwedd (yn cynnwys trwyddedau), caledwedd, cydrannau a hyfforddiant, sydd y tu hwnt i brif gategorïau gwariant gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh Llywodraeth Cymru.



4 Edrychwyd ar ganlyniadau holl ymarferion meincnodi blynyddol Llywodraeth Cymru ers dechrau'r contract, sy'n cymharu costau gwasanaethau TGCh o dan y Contract â'r costau yr aed iddynt gan ystod o sefydliadau tebyg.

5 Mae Atodiad 3 yn cynnwys manylion costau amcangyfrifedig a chostau terfynol y 10 prosiect Sylfaen a astudiwyd yn fanwl.

## Dadansoddi perfformiad gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh

6 Ystyriwyd perfformiad y gwasanaethau TGCh craidd a ddarparwyd o dan y Contract (Rhan 2 o'r adroddiad) a'r gwaith o gyflawni'r deg prosiect Sylfaen (Rhan 3). Wrth asesu perfformiad gwasanaethau TGCh craidd, dadansoddwyd p'un a oedd y Contract yn cyrraedd y safonau gwasanaeth cytûn a nodwyd gan lefel y credydau gwasanaeth yr aed iddynt. Lle nad yw perfformiad yn cyrraedd safon gytûn, rhoddir cosb ariannol (neu gredyd gwasanaeth) i'r Gynghrair. Arfer safonol y diwydiant yw bod lefel y credydau gwasanaeth yn ddull dibynadwy o asesu perfformiad y contract o ran cyflawni yn erbyn y safonau gwasanaeth.

7 Wrth ddadansoddi perfformiad gwasanaethau TGCh, gwnaethom hefyd ystyried:

- **a** canlyniadau arolwg boddhad defnyddwyr ar gyfer defnyddwyr Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad;
- **b** Swyddfa Masnach y Llywodraeth adroddiadau fframwaith asesu cyffredin Swyddfa Masnach y Llywodraeth;
- **c** gwybodaeth am safonau arferol diwydiant TGCh (er enghraifft, o ran ffigurau argaeledd).


8 Ar gyfer y prosiect Trawsnewid, gwnaethom adolygu dogfennau prosiect perthnasol (er enghraifft, yr achos busnes strategol ac adroddiad terfynu'r prosiect) a chynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y prosiect.

9 Wrth asesu perfformiad prosiectau TGCh, gwnaethom ystyried p'un a oedd prosiectau'n cyflawni'r manteision arfaethedig a ph'un a gawsant eu cwblhau yn unol â'r costau a'r amserlenni cytûn. Gwnaethom ganolbwyntio'n bennaf, ond nid yn unig, ar y deg prosiect Sylfaen ac edrychwyd ar ddogfennau prosiect, yn cynnwys achosion busnes, cynlluniau dechrau prosiect, adroddiadau terfynu prosiectau a phapurau gwireddu manteision. Lle y bo'n briodol, cyfwelwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y prosiectau. Gwnaethom hefyd ddadansoddi data ar lefel y manteision ariannol a gyflawnwyd ar draws y Portffolio Hwyluso Llywodraeth cyfan brosiectau newid busnes Llywodraeth Cymru, a ddarparwyd gan Dîm Portffolio Hwyluso Llywodraeth Llywodraeth Cymru.

## Adolygiad o weithdrefnau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh

**10** Gwnaethom adolygu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o reoli gwasanaethau TGCh craidd a phrosiectau TGCh o dan y Contract. Gwnaethom hefyd edrych yn ehangach ar drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni prosiectau TGCh y Portffolio Hwyluso Llywodraeth, yn cynnwys rhai nas cyflawnir drwy'r Contract. Cyfwelwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli contract Merlin neu am reoli gwasanaethau TGCh yn ehangach. Roedd y swyddogion hyn yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaethau TGCh (sef Uwch Berchennog Cyfrifol presennol y Contract), Pennaeth yr Is-adran Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau ac Adnoddau a staff yr Uned Fasnachol a Chontractau. Yn ogystal, cyfwelwyd â'r swyddogion hynny sy'n ymwneud â chyflawni a monitro'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth. Yng Nghomisiwn y Cynulliad, cyfwelwyd â Dirprwy Glerc y Cynulliad a'r Pennaeth Gwasanaethau TGCh.


**11** Casglwyd tystiolaeth oddi wrth y Gynghrair hefyd, yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyfrif Gwasanaethau Gwybodaeth Siemens a chynrychiolwyr o PA Consulting a Cap Gemini.



# Atodiad 2 – Llinell amser y digwyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad

| Dyddiad | | Digwyddiad |
|---|---|---|
| 2004 | Ionawr | Llofnodi contract Merlin rhwng 'y Gynghrair' (a arweiniwyd gan Siemens) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| | Ebrill | Dechrau darparu gwasanaethau. |
| | Rhagfyr | Sefydlu Bwrdd Buddsoddi i wneud penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas â phrosiectau newid corfforaethol Llywodraeth Cymru sy'n gwneud ceisiadau am arian corfforaethol, p'un a ydynt yn cynnwys elfen TGCh neu beidio. |
| 2005 | Mai | Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y cylch cyntaf o brosiectau TGCh i'w cefnogi drwy'r Contract - prosiectau Sylfaen. |
| | Mehefin | Y terfyn amser gwreiddiol ar gyfer cwblhau'r prosiect Trawsnewid fel y nodwyd yn y Contract. |
| | Gorffennaf | Oedi'r prosiect Trawsnewid a llunio amserlen ddiwygiedig gyda dyddiad cwblhau targed o fis Medi 2006. |
| 2006 | Chwefror | Adolygiad a arweiniwyd gan Siemens o ddyluniad technegol y prosiect Trawsnewid. |
| | Ebrill | Uno pedwar Corff mawr a Noddir gan Lywodraeth Cymru a nifer o gyrff eraill llai â Llywodraeth Cymru. |
| | Mai | Oedi'r prosiect Trawsnewid am yr eildro. |
| | Gorffennaf | Adroddiad gan Dîm Adolygu Merlin yn argymell gwell trefniadau rheoli a rheolaeth raglenni. |
| 2007 | Mawrth | Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i asesu opsiynau ar gyfer y prosiect Trawsnewid. |
| | Ebrill | Trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer prosiectau Merlin, yn cynnwys disodli Bwrdd Rheoli Merlin ym mis Gorffennaf. |
| | Mai | Gwahanu Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol a'r broses ddilynol o sefydlu Comisiwn y Cynulliad. |
| | Gorffennaf | Llywodraeth Cymru yn creu swydd Cyfarwyddwr TGCh a Gwasanaethau Contract ac yn penodi rhywun iddi. |


| Dyddiad | | Digwyddiad |
|---|---|---|
| 2008 | Ionawr | Cyhoeddi Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-2011. |
| | Mai | Adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. |
| | Gorffennaf | Cwblhau trydydd cam y prosiect Trawsnewid. |
| | Medi | Dechrau pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid i gyflwyno seilwaith TGCh newydd. |
| 2010 | Ebrill | Cwblhau pedwerydd cam y prosiect Trawsnewid. |
| | Ebrill | Siemens yn tynnu'n ôl o drafodaethau ynghylch model prisio newydd. |



# Atodiad 3 – Crynodeb o'r 10 prosiect Sylfaen


| Prosiect | Disgrifiad ac amcanion | Amserlen a statws presennol | Cost |
|---|---|---|---|
| Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth | Disodlodd y System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth nifer o systemau gydag un cofnod electronig o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y gallai pawb a oedd yn ymwneud â'r gwaith ei defnyddio, ei diweddaru a chael gwybodaeth reoli ohoni. | Caewyd y prosiect ar ôl ei gwblhau ym mis Ionawr 2006, yn dilyn ei gyflwyno fesul cam rhwng 14 Tachwedd 2005 a 19 Rhagfyr 2005.<br>Cafodd y system ei gwella yn 2007 a 2008 er mwyn unioni problemau a ddaeth i'r amlwg ac ymateb i ofynion newydd. | Cost derfynol y prosiect oedd £173,000 o gymharu â chyllideb wreiddiol o £135,000. |
| System rheoli a thalu grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | Nod y prosiect hwn oedd gwella ac uwchraddio'r systemau a'r prosesau gweinyddu grantiau presennol , er mwyn gwella swyddogaethau'r system a sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. | Caewyd y prosiect ar ôl ei gwblhau ym mis Mehefin 2008.<br>Cyflawnwyd cam olaf y prosiect yn unol â'r amserlen. Fodd bynnag, diwygiwyd yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r prosiect sawl gwaith a'r bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r prosiect ym mis Mawrth 2007. | Costau terfynol y prosiect oedd £18.06 miliwn.<br>Cyflawnwyd cam olaf y prosiect (ar ôl mis Mai 2007) yn unol â'r gyllideb. Fodd bynnag, bu'n rhaid cynyddu'r gyllideb sawl gwaith. Y gyllideb a nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol oedd £7.72 miliwn. |
| Cam 2 Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol Gwasanaethau a Rennir | Amcanion y prosiect hwn oedd cyfuno systemau gwybodaeth Adnoddau Dynol, gweithredu system recriwtio ar-lein a throsglwyddo cofnodion Adnoddau Dynol y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd ar yr amcanion hyn ym mis Mai 2005 ac fe'u gweithredwyd drwy ddau brosiect: prosiect y System Wybodaeth Adnoddau Dynol a'r prosiect Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol (neu'r System Rheoli Recriwtio Ar-lein). | Cwblhawyd y cam gweithredu gofynnol olaf o dan brosiect y System Wybodaeth Adnoddau Dynol ym mis Rhagfyr 2008. Ond ni chwblhawyd agweddau allweddol ar y prosiect yn unol â'r amserlen gytûn.<br>Caewyd y prosiect Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2006, yn unol â'r amserlen cyflenwi gytûn. | Nid yw dogfennaeth cau'r prosiect ar gyfer prosiect y System Wybodaeth Adnoddau Dynol yn nodi p'un a gafodd ei gwblhau yn unol â'r gyllideb gytûn.<br>Costau'r prosiect Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol oedd £478,786 o gymharu â chyllideb amcangyfrifedig o £403,000. |

| Prosiect | Disgrifiad ac amcanion | Amserlen a statws presennol | Cost |
|---|---|---|---|
| Prosiect Rhyngrwyd y Cynulliad | Bwriadwyd cyflawni amcanion y prosiect hwn fesul nifer o gamau. Camau 1 i 3 oedd datblygu gwefan, peiriant chwilio a system rheoli cynnwys newydd a throsglwyddo gwefannau'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a unwyd. Nod y pedwerydd cam terfynol oedd gwella swyddogaethau a chynnwys y safle ymhellach. | Mae'r prosiect wedi'i gau bellach oherwydd cwblhawyd cam 4 yn unol â'r amserlen ym mis Chwefror 2009. Fodd bynnag, oherwydd anghydfod masnachol bu'n rhaid oedi cwblhau sawl elfen o drydydd cam y prosiect am 18 mis. | Cyfanswm cost y prosiect oed £4.64 miliwn, o gymharu â chyllideb amcangyfrifedig o £5.46 miliwn (cyflawnwyd cam 4 y prosiect y tu allan i'r Contract am £799,000 o gymharu â chyllideb amcangyfrifedig o £805,000). |
| Diogelwch Gwybodaeth | Prif amcanion y prosiect diogelwch gwybodaeth oedd cytuno ar bolisïau, arferion a gweithdrefnau diogelwch wedi'u diweddaru a chyrraedd Safon Ryngwladol ISO BS7799. | Mae'r prosiect wedi'i gau bellach ar ôl ei gwblhau yn unol â'r amserlen ym mis Mawrth 2007. | Cyfanswm cost y prosiect oedd £244,000 o gymharu â chyllideb amcangyfrifedig awdurdodedig o £500,000 (dychwelyd y gyllideb a oedd yn weddill i dîm y Portffolio Hwyluso Llywodraeth). |
| Cynllunio a chyllidebu integredig | Cyflwyno datrysiad TG i gefnogi cylch cynllunio a chyllidebu wedi'i symleiddio.<br>Ym mis Ionawr 2007, penderfynodd Bwrdd Rheoli Llywodraeth Cymru atal gwaith ar y prosiect hwn, a chynnwys amcanion y prosiect yn ei rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant (Rheoli ar gyfer Cyflenwi). | Rhoddwyd terfyn ar y prosiect ym mis Ionawr 2007. | Costau'r prosiect oedd £297,249, o gymharu â chyllideb gytûn o £293,000. |
| Systemau Gwybodaeth Reoli | Rhoi gwybodaeth gryno i Fwrdd Rheoli Llywodraeth Cymru am Adnoddau Dynol, y gyflogres a chyllid er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau effeithiol.<br>Ym mis Gorffennaf 2008, penderfynodd Llywodraeth Cymru roi'r gorau i'r prosiect hwn a chynnwys ei hamcanion yn y rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant (Rheoli ar gyfer Cyflenwi). | Rheolwyd y prosiect hwn fesul cam diffiniedig. Cyflawnodd y camau cychwynnol y gwelliannau disgwyliedig cyn i'r prosiect gael ei oedi ym mis Gorffennaf 2008. | Costau'r prosiect oedd £362,000, o gymharu â chyllideb gytûn o £785,000. |



| Prosiect | Disgrifiad ac amcanion | Amserlen a statws presennol | Cost |
|---|---|---|---|
| Seilwaith Galluogi Cymwysiadau | Amcanion y prosiect hwn oedd darparu fframwaith llywodraethu technoleg, a datblygu elfennau ymarferol a oedd yn gyffredin mewn nifer o brosiectau, yn cynnwys: swyddfa fodel; peiriant chwilio a pheiriant datblygu diogel.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith cysylltiedig o dan ddau brosiect: prosiect y Strategaeth Rhaglenni TGCh a Rhaglenni TGCh - Cynllunio ar gyfer Cyflawni Busnes. Amcanion y prosiect olaf oedd sefydlu systemau ar gyfer cyflwyno rhaglenni TGCh yn gorfforaethol ac yn adrannol. Fodd bynnag, yn sgîl gwaith peilot diwygiwyd cwmpas y prosiect gan Lywodraeth Cymru, gan gydnabod, cyn y gallai sefydlu systemau ar gyfer cyflwyno rhaglenni TGCh, fod yn rhaid iddi'n gyntaf nodi swyddogion o fewn maes pob Cyfarwyddwr Cyffredinol a oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch TGCh. | Cyflawnodd prosiect y strategaeth TGCh ei waith ym mis Ionawr 2008.<br>Mae'r Prosiect Rhaglenni TGCh - Cynllunio ar gyfer Cyflawni Busnes wedi'i gau bellach, yn dilyn penderfyniad i nodi 'Swyddog Arweiniol TGCh' o fewn maes pob Cyfarwyddwr Cyffredinol. | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi gwybodaeth i ni am gostau'r prosiect hwn. |
| System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau | Nod y prosiect oedd datblygu a gweithredu un ystorfa ar gyfer creu, rheoli a storio cofnodion electronig a dogfennau mewn amgylchedd diogel, sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r safonau arfer gorau ac yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd busnes sylweddol. | Cynlluniwyd y prosiect mewn dau gam yn wreiddiol, gyda'r nod o'i gyflwyno'n llawn yn ystod haf 2010, yn amodol ar argaeledd arian o fewn yr amserlenni hyn.<br>Ailgynlluniwyd y prosiect ym mis Mawrth 2006: bellach ceir tri cham gweithredu, gyda'r nod o'i gyflwyno'n llawn yn 2012.<br>Cwblhawyd camau 1 a 2 yn unol â'r amserlen. | Cost cam 1 a 2 oedd £3.71 miliwn, o gymharu â chyllideb amcangyfrifedig o £3.73 miliwn.<br>Cost amcangyfrifedig ar gyfer cam 3 rhwng 2009 a 2012 yw £13.8 miliwn. Y gwariant ar gyfer 2009-10 oedd y gyllideb ddyranedig lawn o £3.8 miliwn. |


| Prosiect | Disgrifiad ac amcanion | Amserlen a statws presennol | Cost |
|---|---|---|---|
| System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid | Bwriad gwreiddiol y prosiect oedd cysoni prosesau, gweithdrefnau a systemau caledwedd a meddalwedd ategol rhwng un rhan o Awdurdod Datblygu Cymru (bryd hynny), sef ei Is-adran Ryngwladol, a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn sgîl uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru roi'r gorau i'r prosiect gwreiddiol ac ailgynllunio ei gwmpas.<br>Amcan y prosiect ar ei newydd wedd yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth busnes Llywodraeth Cymru. Roedd y llwyfan dechnoleg a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect hwn yn allweddol i gyflwyno canolfan gyswllt cwsmeriaid busnes Llywodraeth Cymru a agorwyd yn 2008. | Wedi'i ariannu ar y cyd drwy'r Portffolio Hwyluso Llywodraeth ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Disgwylir ei gwblhau ym mis Hydref 2011. | Y gwariant gwirioneddol hyd at fis Mawrth 2010 oedd £4.1 miliwn, o gymharu â chyllideb gytûn o £4.63 miliwn. Y gyllideb ar gyfer y cam terfynol (hyd at fis Mawrth 2011) yw £1.81 miliwn. |



# Atodiad 4 – Y prif fanteision a nodwyd o'r pum prosiect Sylfaen a gwblhawyd

| Teitl y prosiect | Manteision ariannol | Manteision anariannol |
|---|---|---|
| **Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth** | Symleiddiwyd y system ar gyfer rheoli pob agwedd ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Yn ôl Llywodraeth Cymru gwnaed arbedion sylweddol o ran amser staff, ond nid yw wedi mesur yr arbedion hyn a'u trosi'n arbedion cost. Noda Llywodraeth Cymru y cyflawnwyd arbedion drwy:<br>• leihau'r amser a gymerir gan staff i brosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth;<br>• lleihau costau darparu gwybodaeth reoli;<br>• nodi ceisiadau sy'n fwy na'r terfynau costau cyhoeddedig a pheidio â chyflawni unrhyw waith arnynt. | Nododd yr achos busnes gwreiddiol fod y prif fanteision anariannol fel a ganlyn:<br>• cynnal enw da Llywodraeth Cymru am fod mor agored â phosibl;<br>• gwell dadansoddi ansoddol mewn perthynas â phob cais a phob ymateb;<br>• cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth;<br>• helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau polisi perthnasol.<br>Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw werthusiad o'r graddau y cyflawnwyd y manteision anariannol arfaethedig hyn. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai prif gyfraniad y prosiect o ran manteision busnes yw'r storfa wybodaeth ganolog a rennir sy'n galluogi llawer o ddefnyddwyr awdurdodedig i nodi a dadansoddi data. Nododd y Llywodraeth fod angen llai o ymdrech i gofnodi ceisiadau ac ymatebion, a llai byth o ymdrech i sicrhau cysondeb. Mae'r gwelliannau hyn yn cyfrannu at y manteision ariannol ac anariannol. |
| **Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol Gwasanaethau a Rennir (Cam 2)**<br>Fe'i cyflawnwyd drwy ddwy fenter:<br>Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol;<br>Technoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol (neu'r System Rheoli Recriwtio Ar-lein) | Cyflawnodd y prosiect Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol arbedion arian parod a rhai arbedion o ran amser staff:<br>• Creu cronfa ddata staff fanwl gywir er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi'r defnyddwyr TGCh presennol ac atal taliadau i'w chyflenwr gwasanaethau TGCh am 'rith ddefnyddwyr' (h.y. y rheini nad ydynt yn gweithio i Lywodraeth Cymru mwyach, ond sydd wedi'u rhestri fel cyflogeion o hyd). Mae hyn wedi arwain at arbedion o £150,000 y flwyddyn;<br>• Llwyddodd Llywodraeth Cymru i ostwng y lefelau staffio ychydig sef 0.5 o swydd lawn amser.<br>Cyflawnodd System Rheoli Recriwtio Ar-lein Llywodraeth Cymru arbedion arian parod o £1 filiwn y flwyddyn, yn sgîl llai o gostau hysbysebu, staffio, deunydd ysgrifennu a chostau swyddfa. | Cyflawnodd y prosiect Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol yr arbedion anariannol canlynol:<br>• **Gwell trefniadau rheoli absenoldebau:** mae'r system newydd yn ei gwneud yn bosibl i gofnodi gwybodaeth amser real am absenoldeb oherwydd salwch ac yn ei gwneud yn haws i ddadansoddi data, gan felly helpu rheolwyr llinell i ymdrin yn fwy effeithiol ag achosion o absenoldeb oherwydd salwch.<br>• **Gwell trefniadau rheoli perfformiad:** drwy storio cofnodion adolygiadau datblygu personol yn electronig ceir gwell trefniadau monitro a gorfodi o ran y polisi rheoli perfformiad.<br>• **Gwell diogelwch sefydliadol:** drwy hysbysu staff diogelwch yn awtomatig o newydd-ddyfodiaid a staff sy'n gadael gellir gweithredu a dileu cardiau mynediad adeiladau mewn modd amserol.<br>Mae manteision y System Rheoli Recriwtio Ar-lein yn cynnwys: annog recriwtio ar-lein; llai o gofnodi data; cyfathrebu ag ymgeiswyr yn electronig a chyfleuster i aelodau panel ddidoli ceisiadau ar-lein. |

| Teitl y prosiect | Manteision ariannol | Manteision anariannol |
|---|---|---|
| **Prosiect Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru** | Bu'r data o ran manteision ariannol y prosiect Rhyngrwyd a gyflwynwyd i ni gan rannau gwahanol o Lywodraeth Cymru yn anghyson. Fodd bynnag, cafodd Is-bwyllgor Strategaeth Llywodraeth Cymru wybod bod y prosiect wedi cyflawni arbedion ariannol o £2.2 filiwn. Mae'r arbedion yn deillio o ddefnyddio un gwasanaeth rhyngrwyd yn unig i ddatblygu a chynnal gwefannau, yn hytrach na gosod contractau allanol i drydydd partïon. | Nododd adolygiad allanol gan ymgynghorwyr allanol welliannau sylweddol o ran safle mewnrwyd Llywodraeth Cymru, gyda gwell trefniadau o ran ei gyflwyniad, ei gynnwys a'i systemau rheoli a gwell cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. |
| **Diogelwch Gwybodaeth** | Ni ragwelwyd unrhyw fanteision ariannol. | Ardystiwyd bod gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn bodloni safonau rhyngwladol. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd asesiad systematig o'r manteision a sicrhawyd drwy gyflawni'r amcan hwn. |
| **System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** | Hyd yma, mae'r broses o gyflwyno'r system rheoli a thalu grantiau newydd wedi cyflawni'r manteision ariannol canlynol:<br>Cael gafael ar gronfeydd strwythurol yr UE: dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod angen gwell system o reoli a thalu grantiau er mwyn cael gafael ar tua £1.9 biliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ardaloedd difreintiedig Cymru; roedd archwiliad o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2004 wedi nodi diffygion yn y system flaenorol.<br>Gostwng lefelau staffio: lleihawyd nifer y staff sy'n prosesu taliadau grant o 20 i 12. Fodd bynnag, bu'r arbedion ariannol blynyddol yn llai na hanner y swm a ddisgwyliwyd bob blwyddyn sef £554,962.<br>Peidio ag adnewyddu trwyddedau meddalwedd: cyflawnwyd arbediad untro o £330,000 oherwydd nad oedd angen adnewyddu trwyddedau meddalwedd, gan fod y swyddogaethau a gyflawnwyd gan y feddalwedd wedi'u hymgorffori yn y system newydd ar gyfer rheoli a thalu grantiau.<br>Llai o daliadau llog tybiannol: efallai y bydd y system newydd yn gostwng lefel y llog a delir gan Lywodraeth Cymru, os oes llai o amser yn mynd heibio rhwng yr adeg y bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r rhai sy'n cael grantiau a'r adeg y caiff ei had-dalu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ni fydd graddau unrhyw arbedion yn glir tan ar ôl diwedd y cylch ariannu presennol yn 2013. | Gofynnodd Arolwg Barn Cwsmeriaid 2009 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'r rheini a gafodd grantiau leisio eu barn ar y system newydd. Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol iawn am y ffaith ei bod yn cymryd llai o amser i brosesu ceisiadau grant. Roeddent yn llai cadarnhaol ynghylch rhai agweddau eraill ar y system, yn cynnwys anawsterau o ran uwchlwytho dogfennau i brosesu eu cais am grant cychwynnol.<br>Mae'r system newydd hefyd wedi cyflawni manteision i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod gwybodaeth reoli, a arferai gymryd nifer o ddiwrnodau i'w choladu, bellach ar gael yn awtomatig. At hynny, mae adroddiadau tynnu i lawr (sef ceisiadau am arian gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn Ewropeaidd) bellach yn awtomatig, yn hytrach na chymryd deg diwrnod staff i'w paratoi. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym hefyd fod rhwyddineb cael gafael ar wybodaeth reoli o'r fath wedi'i galluogi i lunio rhagolygon gwariant gwell a bod yn fwy tryloyw gyda rhanddeiliaid allweddol. |



| Teitl y prosiect | Manteision ariannol | Manteision anariannol |
|---|---|---|
| **System Rheoli a Thalu Grantiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (parhâd)** | Rheoli cronfeydd ariannol yn well: bydd gwell trefniadau i olrhain prosiectau sy'n derbyn cronfeydd strwythurol yn golygu y gellir ailddyrannu arian nas defnyddiwyd i brosiectau eraill. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn amcangyfrif y bydd gwell trefniadau monitro yn lleihau tanwariant y rhaglen o 3 y cant o dan raglenni 2000-06 i 1 y cant o dan raglen bresennol 2007-13, gan arwain at £30 miliwn o arian ychwanegol yn ystod 2006-13. Ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i allu dilysu hyn tan ddiwedd y rhaglen cronfeydd strwythurol presennol yn 2013. | Mae'r system wedi helpu i wella hygyrchedd Llywodraeth Cymru drwy ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru strwythur sylfaenol y system newydd i ddatblygu ei system TG ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu (o dan un o raglenni Galluogi'r Llywodraeth) defnyddio seilwaith y system newydd i gefnogi meysydd busnes eraill Llywodraeth Cymru. |

# Atodiad 5 – Argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2006 - Contract Merlin - Galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh - yn ymwneud â chaffael

1 Bu oedi yn y caffael am fod Llywodraeth y Cynulliad yn rhy hwyr wrth weld yr angen am gaffael cyngor arbenigol ychwanegol i negodicontract o'r maint hwn. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad , yn gynnar yn y broses gaffael, drafod ei hangen am ymgynghorwyr allanol er mwyn osgoi'r oedi a ddaw yn sgil penodi ymgynghorwyr drwygystadleuaeth agored pan fydd y broses gaffael ar ei hanner. Er mwyn lleihau cost yr ymgynghorwyr hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio nifer o ffyrdd o dalu, megis talu am gyngor wrth y dydd yn hytrach nag wrth yr awr.**

2 Ni welodd bwrdd y rhaglen gaffael oedd yn goruchwylio caffael Merlinddigon o wybodaeth ariannol i'w galluogi i fonitro gwariant yn fanwl acyn gyson. I alluogi craffu manylach ar gostau caffael yn y dyfodol, **dylai'r timau caffael gyflwyno data ariannol bob chwarter ar rannau unigol prosiectau caffael mawr i fwrdd y rhaglen gaffael.**

3 Ni chafodd y defnyddwyr ddigon o ran wrth nodi'u hanghenion TGCh aradeg llunio manyleb y contract. **Wrth baratoi i lenwi lle Merlin, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod gan y defnyddwyr ran weithredol wrth nodi anghenion TGCh a newid busnes, er enghraifft drwy weithdai, ymweliadau safle a rhwydweithiau âsefydliadau perthnasol, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ill dau, i weld posibiliadau defnyddio TGCh i gyflwyno newid busnes.**

4 Roedd hepgor Adolygiadau Gateway 0 a 2 wedi lleihau'r maint o graffu allanol a fu ar gaffael Merlin. **Dylai Llywodraeth y Cynulliadddefnyddio pob un o bum Adolygiad Gateway SwyddfaMasnach yLlywpdraeth i ddod â sicrhad ac adolygiad annibynnol i bobcyfnod allweddol o raglenni caffael mawr yn y dyfodol.**

5 Er bod tîm caffael Merlin wedi cymryd y camau priodol i reoli risgnegodi â chyflenwr presennol, bydd angen i swyddogion Llywodraeth yCynulliad sicrhau cystadleuaeth wrth gaffael TGCh yn y dyfodol gan ygallai SBS fod â chymaint ag ugain mlynedd o brofiad o weithio yn yCynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd contract Merlin. **Dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau tua diwedd Merlinfod ganddynt ddigon o amser i benderfynu ar strategaeth gaffaelcyflenwr yn ei le, a hynny yng ngoleuni'r hyn fydd yn hysbys ar ypryd ynghylch trafod caffael sy'n cynnwys cyflenwr presennol acynghylch natur y farchnad sy'n cyflenwi'r gwasanaethau angenrheidiol ar yr adeg honno.**